

# CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

Rhifyn 314 - 60c  
Mehfin 2013

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llanybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Gwledda  
yn Ysgol y  
Dderi**



Tudalen 22

**Cadwyn  
Cyfrinachau  
arall**



Tudalen 12

**Lluniau  
Carnifal  
Cwmann**



Tudalen 13

## O Gystadlaethau Ffermwyr Ieuaic i Eisteddfod yr Urdd



Cffi Llanllwni yn emill Adran Iau Rali Sir Gâr (mwy o luniau ar dudalen 26)




Gwennan Davies Cffi Llanwenog a ddaeth yn ail yng nghystadlaethau Aelod Hŷn Cymru a Lloegr gyda'r cyflwynydd teledu Matt Baker.



PHOTOSCYMRU.COM

Robert Jenkins Ysgol Bro Pedryn ail am lefaru.



Charlotte Saunders Ysgol Bro Pedryn drydydd wrth ddawnsio disgo yn Eisteddfod yr Urdd.



Unawd bl 2 ac iau - Ffion Mai Davies yn ail.



PHOTOSCYMRU.COM

Ysgol Cwrtnewydd yn ail yn y gystadlaethau Cân Actol.



PHOTOSCYMRU.COM

Parti llefaru dysgwyr blwyddyn 7 i 9 Ysgol Bro Pedryn drydydd.



**WYT TI RHWNG 13 - 18?**  
*Oes gen ti un o'r rhain?*

**Ffilmia dy fywyd ar Ddydd Sadwrn, 22 Mehefin**

Am fwy o wybodaeth a lle i anfon dy fideo, cer i DymaFi.tv

Bydd y fideos i gyd yn cael eu rhoi ar y wefan a bydd rhai yn cael eu dangos ar S4C.

**WWW.DYMAFI.TV**



Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Rhannodd **Papur Bro Clonc** lun Urdd Gobaith Cymru.

Mai 28

Mae croeso cynnes i bawb ar faes Eisteddfod yr Urdd yr wythnos hon.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Rhannodd **Papur Bro Clonc** lun Rhian Thomas.

Mai 23

CCfl Cwmann yn bencampwyr Hoci Sir Gâr.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Postiodd **Papur Bro Clonc**

Mai 21

Diwrnod llwyddiannus a chymdeithasol yn Nigwyddiad Defaid Cymru yn Llansawel heddiw.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Nia Wyn Davies ► **Papur Bro Clonc**

Mai 20

Papur Bro Clonc ar y newyddion heno.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Rhannodd **Papur Bro Clonc** lun Llanerchaeron.

Mai 6

Taith Tractorau heddiw - dim pob plwyf sydd â Ficer yn gallu handlo tractor!

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Rhannodd **Papur Bro Clonc** lun Ffion Angharad Rees.

Mai 4

CCfl Llanllwni yn enillwyr Adran Iau Rali Sir Gâr 2013.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



**WEDI CAEL CANIATAD CYNLLUNIO AC EISIAU ADEILADWR?**

*PEIDIWCH AG EDRYCH DIM PELLACH...*

**RYDYN NI'N DELIO Â PHOB AGWEDD O'R GWAITH; ADEILADU TAI NEWYDD, ADNEWYDDU, ESTYNIADAU AC ADDASIADAU. O'R CYNLLUNIO I'R CWBLHAU.**



• GWAITH COED • TOI • FFENESTRI A DRYSAU • GRISIAU • CEGINNAU • YSTAFELLOEDD 'MOLCHI • LLORIAU PREN • RHEOLI PROSIECT • DULLIAU EGGI AMGEN A'U GOSOD •


**www.cartrefircwm.co.uk**


Cartrefir Cwm, 1 Tynyffordd, Rhydybont, Llanybydder, Carmarthenshire, SA40 9QU  
Ffôn: 01570 480 214 • Symudol: 07814 027 849 • E Bost: info@cartrefircwm.co.uk

# Pwy yw pwy?

# Beth yw beth?

## Golygydd:

Mehefin a Gorffennaf Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855  
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tîm Golygyddol: Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd,  
Marian Morgan a Delyth Phillips

Dylunydd y mis: Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349

Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590  
e-bost: bedwyr@btopenworld.com  
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

## Gohebwy Lleo:

Cellan	Alwen Edwards, Awel Teifi	421001
Cwmann	Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen	422922
Cwmsychbant	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Llanwenog/Drefach	Mary Davies neu Eifion Davies	
Ffaldybrenin/Ffarmers	Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers	01558 650507
Gorsgoch	Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod	434238
Llambed	Janet Evans, Haulfryn	422856
Llanfair	Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn	493407
Llangybi a Betws	Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynon	493325
Llanllwni	Dewi Davies, Glanafon	480218
Llanwnnen	Elin Thomas, 1 Teras Sycamor	480239
Llanybydder	Menna Jones, Ceginau Lifestyle	480257
Pencarreg	Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf	422270

## Bwrdd Busnes:

Cadeirydd	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349
e-bost:	cadeirydd@clonc.co.uk	
Is-Gadeirydd	Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach	481855
Ysgrifynyddes	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Trysorydd	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015
e-bost:	ysgrifennydd@clonc.co.uk	

Ceidwad y Camera	Janet Evans, Haulfryn, Llambed	422856
Ffotograffydd	Tim Jones, Llainwen, Llambed	422644
Argraffwyr	Gwasg Aeron, Aberaeron	01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwy i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu e-bostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi defnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu llun plant i'w gynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: [www.clonc.co.uk](http://www.clonc.co.uk) os am fwy o wybodaeth.
- Beth am ddilyn Clonc ar: Gweplyfr - [www.facebook.com/clonc](https://www.facebook.com/clonc) a Trydar - @Cloncyn
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tansgrifio i Clonc am £17.50 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifynyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

# Siprys

## Trefnu Blodau.

Mae Gŵyl Flodau Chelsea wedi rhoi llawer i ni feddwl amdano yn ddiweddar. Mae'n rhyfeddod fod ein garddwyr yn llwyddo i greu arddangosfeydd hyfryd a lliwgar o gofio am y tywydd gaeafol. Un peth sy'n fy mhoeni gyda'r arddangosfeydd o drefnu blodau – paham na all y newyddiadurwr sy'n cyfweld y gwahanol bobol adael i'r arbenigwr wneud y trefnu yn lle ceisio dwyn y clôd. Nid yw hyn yn gyfyngedig i Chelsea, mae'n digwydd yn aml ar ein rhaglenni ni hefyd. Peidiwch ag ymyrryd, gadewch i ni fwynhau gweld arbenigrwydd y trefnwyr.

## Y Cwmins!

Wedi dod ar draws adroddiad o'r flwyddyn 1889 o gyfarfod Jiwibili'r Frenhines Victoria. Do roedd y cwmins yn destun trafodaeth y pryd hynny hefyd. Roedd Cyngor y Dref yn achwyn nad oedd ganddynt reolaeth ar y cwmins gan mai Pwyllgor o Ymddiriedolwyr oedd a gofal yr ardal ac yn achwyn nad oedd y Pwyllgor yn gwneud dim. Dywedir fod y lle yn dioddef yn ofnadwy ar ôl y ffair; hoffaf y frawddeg "Mae'r cwmins yn waeth na Heol y Bont". Cyfeiriwyd at y ffaith fod un o'r Cynghorwyr ddim yn hoffi'r gair 'cwmins' ac fe hoffai weld y safle yn cael ei enwi ar ôl y Capel neu Eglwys oedd yn sefyll yno ar un adeg sef 'Sant Tomos'. Felly sgwâr Sant Tomos amdani. Pwy arall a godwyd yn y cyfarfod yma oedd yr angen am gau siopau'r dref am hanner diwrnod. Roedd

un neu ddau o'r Cynghorwyr yn erbyn hyn; yn ôl un, cyfle i'r bobol ifanc fynychu'r tafarnau, ond un o'r cefnogwyr yn gweld hyn yn gyfle i'r bobol ifanc fynd ar y trên i Dregaron neu Lanybydder! Ydy mae pethau wedi newid, ond diolch fod na rywun wedi croniclo hanes yn fanwl, sydd o ddiddordeb i ni heddiw.

## Clywed y Gwew!

Roedd y gwew yn dderyn cyffredin iawn yn ein hardaloedd, ond oherwydd sychu llawer o'n gwlypdir mae hyn wedi cyfyngu'r Gwew i lai o lefydd. Roedd na ddywediad adre am rywun a'i iechyd yn fregus, "Glywith e ddim o'r gwew leni". Wel fe benderfynais mod i am glywed y gwew. Cors Caron meddwn wrth fy hun a dyma fynd yn y car am Lwynygroes a Chwmins Capel Betws ac ymlaen i Lanbadarn Odwyn i ymweld â'r Eglwys ac yna yn groes am Dregaron. Dim sôn am y gwew. Cyrraedd y warchodfa natur ar Gors Caron a cherdded ar hyd llwybr y gors. Gwylio un Crychyd Cam yn disgwyl ei gyfle am bysgodyn yn y pwll, dim llawer o adar eraill. Cerdded yn ôl am y car wedi siomi nad oedd y gwew wedi canu. Cyrraedd y car ac aros am eiliad cyn cau'r drws, a do fe ganodd y gwew. Gobeithio y clywaf hi eto'r flwyddyn nesaf, ond rwy'n credu y bydd hi'n rhwyddach mynd i Gorsgoch.

Pob hwyl,  
**Cloncyn.**

# Ysgol Bro Pedr



Disgyblion a fu'n llwyddiannus yng nghystadlaethau Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Daniel Legg, 3ydd am ryddiaith i ddysgwyr; Lowri Meles James Evans y wobwr gyntaf am ffotograffiaeth; Ifan Meredith yn 3ydd am emwaith ac Austin Thomas yn ennill yr ail wobwr am ryddiaith i ddysgwyr.



Gwawr Hatcher, Aron Dafydd, Sian Elin Williams a Gethin Morgan yn un o dri thîm Siarad Cyhoeddus drwy Gymru a ddewiswyd i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni.

Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno â'r farn a adlewyrchir yn mhob un o erthyglau CLONC.

**Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**



## MEHEFIN

- 7 - Cinio'r Trydydd Byd Neuadd yr Eglwys Llanbed 12.00 – 2.00y.p. o dan nawdd Cymorth Cristnogol.
- 7 - Noson yng nghwmni Clive Edwads yn y Llew Du Llanybydder.
- 7 - C.Ff.I Llanllwni yn cynnal Helfa Drysor i ddechrau o Neuadd yr Eglwys, Maesycrugiau am 6.30y.h.
- 7 - Ysgol Gynradd Llanwnnen yn cyflwyno Noson o adloniant yn y Grannell gyda Dafydd Hywel, Dewi 'Pws' Morris a Gillian Elisa.
- 8 - Diwrnod Hwyl Cylch Meithrin Gwenog yn y Llew Du, Llanybydder rhwng 12.00yp a 4.00yp.
- 8 - Marchnad y bobl yn Neuadd Fictoria 10yb - 1yp.
- 9 - Gŵyl Gorawl Eglwysy'r Ddeoniaeth yn Eglwys Tregaron. Plant am 2.00y.p a'r oedolion am 6.00y.h. Arweinyddes Mrs Ceinwen Evans.
- 11 - Cyfarfod Cymdeithas Diabetic, Cangen Llanybydder yn Ffestri Aberduar am 7.30y.h.
- 15 - Rali C.Ff.I Ceredigion ar Fferm Berthlwyd, Talybont.
- 15 - Ffair Haf Eglwys Gatholig Llanbed 11yb - 3yp.
- 15 - Diwrnod Agored Cwm Aur, Llanybydder am 1.00y.p.
- 16 - Oedfa Blynyddol Capel Nonni am 2.00y.p. Disgwyllir y Parchedig Emyr Lyn Evans i wasanethu. Croeso cynnes i bawb.
- 16 - Diwrnod Agored ar Fferm Denmarc 11yb - 3yp
- 20 - Transition Llambedydd yn cynnal 'Big Gathering' yn Neuadd Fictoria am 7 o'r gloch.
- 21 - 22 - Gŵyl Gwrw Llanfair Clydogau.
- 22 - Aduniad Ysgol Pencarreg yn y Llew Du, Llanybydder.
- 22 - Diwrnod Agored i Recordio Blodau Gwyllt gyda Plantlife ar Gae Blaen-Dyffryn, Cwmann 11yb a 3yp - trevor.dines@plantlife.org.uk
- 22 - Marchnad y bobl yn Neuadd Fictoria 10yb - 1yp.
- 23 - Diwrnod o hwyl ym mharc Llanybydder - Twrnaint rownderi i blant a thwrnaint pêl-droed yng ngwisg ffansi i'r oedolion.
- 26 - Noson o Fefus, Hufen, Coffi a Chân gyda Côr Cwmann a'r Cylch ynghyd ag artistiaid eraill yn Nghanolfan y Pentre, Cwmann am 7 o'r gloch. Elw tuag at Gronfa Lleol Eisteddfod Genedlaethol Llanelli 2014.
- 28 - Ffair Haf Ysgol Llanwenog yn cael ei gynnal eleni ar Nos Wener Mehefin 28 ain am 4 o'r gloch.
- 28 - Ras Sarn Helen yn Ysgol Felinfach.
- 29 - Carnifal Llanybydder (Pwyllgor Pentref Llanybydder).

## GORFFENNAF

- 6 - Marchnad Crefftau Gweithdai Menywod Neuadd Sant Iago Cwmann.
- 12 - Ffair Haf Ysgol Gynradd Llanwnnen yn yr ysgol am 4.00y.p.
- 12 - Helfa Drysor Eglwys Llanwenog. Car cyntaf 6.00y.h., olaf 7.15y.h.
- 13 - Mabolgampau Blynyddol Cwrtnewydd.
- 13 - Côr Corisma - Taith Ddirgel.
- 27 - Ffair Fwyd Llanbed.

## AWST

- 3 - Carnifal Llanbedr Pont Steffan.
- 9 - Sioe Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan. Manylion gan yr ysgrifennydd Iwan Williams 422370.
- 10 - Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant.
- 17 - Sioe Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog.
- 24 - 26 Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen, Llanbedr Pont Steffan yn Ysgol Bro Pedr.
- 26 - C.Ff.I Llanllwni yn cynnal Sioe a Treialon Cŵn Defaid ar caeau Abercwm, Llanllwni. Am rhagor o fanylio cysylltwch â Meryl Davies ar 07913 305614 / 01559 384217.

## MEDI

- 1 - Cyngerdd gan Gôr Meibion y Mynydd yng Nghapel Maesffynnon, Llanybi am 7.30y.h.
- 13 - 15 - Ras yr Iaith drwy Geredigion.
- 14 - Ffair Ram ac Arddangosfa Hen Beiriannau ar gae pentref Cwmann.

## HYDREF

- 1 - Pwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder am 7.00y.h. yn yr ysgol.
- 5 - Sioe Ffasiwn yr Urdd gan 'duet a lan lloft' yng Ngholeg y Drindod Dewi Sant am 4.30y.p.
- 11 - Eisteddfod Ddwl Fforwm Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felinfach.

## TACHWEDD

- 1 - Cinio Cymdeithas Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan yn y coleg. Adloniant gan Clive Edwards. Tocynnau ar gael gan yr ysgrifennydd Iwan Williams 422370.

## Ysgol Cwrtnewydd

Rydyn ni fel ysgol wedi penderfynu cael Clwb Cadw'n Heini fel clwb ar ôl ysgol y tymor hwn. Mae'r clwb yn cychwyn ar ôl ysgol ac yn parhau tan hanner awr wedi pedwar. Ar hyn o bryd, rym ni'n paratoi ar gyfer yr Eisteddfod ac yn treulio'r amser yma yn ymarfer ar gyfer y gân actol. Rydym ni i gyd yn disgwyl ymlaen yn awyddus i'r Eisteddfod yn Sir Benfro ac yn gobeithio y bydd yr holl ymarferion yn talu ffordd! Gan Madeleine Smith a Caitlin Gibbons.

Braf oedd cael croesawu aelodau Cymanfa Ganu'r Undodiaid i'r ysgol rhyw brynhawn dydd Sul am de blasus. Cynhaliwyd y Gymanfa yng Nghapel y Bryn a phenderfynwyd cael y te oedd yn dilyn yn ein hysgol ni. Roedd yn ddiwrnod pleserus iawn. Gan Beca Jenkins.

Rydyn ni fel ysgol yn cefnogi Masnach Deg. Buodd plant yr ysgol yn coginio losin er mwyn eu gwerthu yn ein ffair flynyddol Calan Mai. Cododd y stondin tua £100. Blwyddyn pump a chwech oedd yn rhedeg y stondin ac roedden ni wedi mwynhau y profiad yn fawr ac yn teimlo ein bod ni wedi cefnogi achos da iawn. Gan Elin, Lois a Catrin.

Ar y 4ydd o Ebrill aeth rhai o blant Cyfnod Allweddol Dau i redeg yng nghystadleuaeth Trawsgwlad y Sir i Aberaeron. Llwyddodd Alaw i ddod yn chweched o fewn ei hoedran. Llongyfarchiadau mawr i ti Alaw! Diolch yn fawr iawn i rieni hefyd am gludo'r plant. Gan Arwel, Carwyn ac Alaw.

Cynhaliwyd diwrnod Calan Mai yr ysgol ar y 6ed o Fai. Llywydd y dydd eleni oedd Mrs. Wendy Davies, Cei Newydd a oedd yn gyn aelod o staff yr ysgol. Gwerthon ni lawer o fyrgys yn y barbaciw. Ymdrechodd pawb yn y ras flynyddol a chafwyd llwyddiant arbennig gan Alaw Jones a ddaeth yn gyntaf, Lois Jones yn ail a Catrin Schröder yn drydedd ar ran merched yr ysgol. Yn gyntaf allan o fechgyn yr ysgol oedd Owain Jones, yn ail Carwyn Davies ac yn drydedd Owen Schröder. Codwyd y swm sylweddol o £4,700 ac mae'r arian a godwyd ar y diwrnod yn mynd tuag at gronfa'r ysgol. Diolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd. Gan Danny ac Owen.

Mae disgyblion blwyddyn 6 wedi bod yn Ysgol Bro Pedr, Llanbed bedair gwaith i gyd yn ddiweddar fel rhan o'r trefniant pontio. Cafwyd hefyd y profiad o deithio ar fws yr ysgol i fyny i Llanbed ac roedd y profiad hynny yn dipyn o hwyl! Roedd plant Llanwnnen, Llanwenog a Trefilan wedi dod gyda ni hefyd. Yn ystod y cyfnod, gwnaethom ddaliwr pensiliau gyda Mr Aled Dafis a gwersi ymholiadau Gwyddonol gyda Miss Mattie. Rydym ni wedi gwneud llawer o ffrindiau dros y dair wythnos ddiwethaf. Cawsom ginio hyfryd yn yr ysgol ac roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn. Gan Owain.

Cyflwynodd y Cyngor Ysgol bwerbwyt ar gyfer y llywodraethwyr. Arhosodd Madeleine Smith a Hanna Davies er mwyn ei gyflwyno. Roedden ni wedi dangos i'r llywodraethwyr beth oedden ni wedi ei gyflawni yn yr ysgol dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd pawb wedi mwynhau ein cyflwyniad yn fawr iawn. Gan Hanna ac Alaw.

Ar Fai 14eg fe ddaeth Ffrancwyr i ymweld â'r ysgol fel rhan o brosiect Comeniws. Rydym wedi cael ymweliadau o ddwy wlad arall yn barod sef Sbaen ac Iwerddon. Daeth deg o blant i gyd a gyda nhw fe ddaeth eu hathrawes Louise, un rhiant a'r faeres. Yn ystod y dydd fe gawson ni gemau amrywiol a chyfle i ddysgu dawnsio gwerin i'r Ffrancwyr. Fe wisgodd ambell blentyn ei ddillad Dydd Gŵyl Dewei. Wedyn ar ôl ysgol fe aeth yr athrawon a'r plant i Gei Newydd i gael sglodion a physgod – neis iawn! Gan Beca a Jenna.

Yn ystod tymor yr haf mae plant y cyfnod sylfaen yn derbyn gwersi nofio pob pythefnos ym mhwl nofio Ysgol Bro Pedr Llanbed. Gan Ffion a Skye.

Aeth plant y Cyfnod Sylfaen a'r Ysgol Feithrin ar ymweliad i Henllan. Aeth y plant ar y trên bach a chafwyd diwrnod bendigedig er gwaetha'r tywydd. Treuliodd diwedd y dydd yn y parc yn Henllan. Gan Elin, Catrin a Lois.

Croeso i Miss McClelland i gyfnod Allweddol 2. Myfyrwraig yw o brifysgol y Drindod Dewi Sant ac fe fydd hi gyda ni am dair wythnos. Gan Nia.

Daeth tynnwyr lluniau i'r ysgol yn ddiweddar ac fe ddaeth pawb i'r ysgol yn edrych yn smart iawn! Gan Elin.

## Deunaw Oed

Yn ystod mis Mehefin bydd Marian Thomas, Brynranod yn dathlu ei phen-blwydd yn 18 oed. Dymuniadau gorau i ti i'r dyfodol.

## Gwellhad Buan

Dymunwn adferiad llwyr a buan i Mrs Mary Jenkins, Cathal ar ôl ei llawdriniaeth yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar.

Hefyd bu Elgan Jones, Gwel-y-Cledlyn yn derbyn triniaeth yn ysbyty Glangwili hefyd yn ystod y mis.



## Ruby Rose

**Bwtic arhegion  
a chartref hynafol.**

23 Stryd y Bont, Llanbed  
01570 422359  
rubyroselampeter@hotmail.co.uk

## Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,  
Penffordd,  
Llanybydder,  
Ceredigion,  
SA40 9XG

**Darparu gatiâu a rheiliau  
haearn ac hefyd eich holl  
waith weldio ac atgyweirio**

## Mwnici ffwnci



Brodweithio  
a Phrintio Dillad.  
Darparu  
Dillad Gwaith  
a Hamdden.

**Sioned Green  
a Mared Jones**

Nantgwyn,  
Heol Llanfair  
Llambod

☎01570 423135

☎07811917799 /

07968821035

✉mwnciffwnci@hotmail.com

## Gwasanaethau Coed

### Teifi

### Tree Services



Pob math o waith ar goed  
Torri cloddiau \* Plygu cloddiau  
Wedi yswirio'n llawn  
Dyfnbris am ddim  
Coed tân ar werth

Lyn Davies

01239 851001 / 07796 682448

Sefydlwyd 1797

## D. Lloyd a'i Feibion

Glanrwyth, Pumsaint,

Ffôn: 01558 650209 a 650451,

Ffacs: 01558 650440

**Masnachwyr coed  
a nwyddau adeiladu  
a ffensio o bob math  
Glo caled a glo meddal  
o'r ansawdd gorau**

# Pencarreg

## Aelod Iau

Llongyfarchiadau i Manon Lois Williams am dderbyn aelod iau y flwyddyn yng nghinio blynyddol CFFI Cwmann eleni. Mae Manon wedi bod yn chwarae rhan flaenllaw yn y clwb eleni drwy gystadlu mewn amryw o gystadlaethau yn enwedig yn y rali lle bu Manon yn agos iawn i'r brig mewn sawl cystadleuaeth. Da iawn ti. Cyflwynwyd hi gan lywydd y clwb Kevin Jones a'i wraig Elin.



## Eglwys Sant Padrig

Ar ddydd Sul y 5ed o Fai gyda'r haul yn tywynnu bedyddiwyd Mair Caron, baban Mr a Mrs James Hopkins, Llwyn Iorwg, Pencarreg.

Cyflwynwyd blodau hardd yn rhodd gan Mr a Mrs Richard [Dic] Evans, Pant y fen i addurno'r Eglwys ar gyfer yr achlysur hapus. Bedyddiwyd Mair Caron gan ein Ficer, William Strange. Audrey Evans oedd yr organyddes ac hyfryd oedd gweld cynifer o berthnasau a ffrindiau teulu Mair Caron wedi ymuno i ddatlu ym Mhencarreg.

Yn dilyn y bedydd a gynhelir ar Ddydd Sul y Tadau sef 16eg o Fehefin bydd Gwasanaeth Teulu. Croeso cynnes i bawb i'r Gwasanaeth arbennig yma.

## Ffair Haf Sant Padrig

Mewn cyfarfod yn yr eglwys ar y 5ed o Fai penderfynwyd cynnal Ffair Haf ar Orffennaf y 6ed er mwyn codi elw i'r Eglwys yn y pentref.

Mae angen cywiro'r organ sydd wedi bod yn ddistaw heb nodyn i'w glywed yn dod ohoni ers misoedd bellach. Hefyd, mae angen cywiro'r gwifrau trydan. Mae'r holl waith yma yn mynd i gosti'n ddrud felly gorau'n gyd gynted y medrwn fynd ati i godi arian.

Bydd amrywiaeth o stondinau yno, e.e. stondinau gacennau, arteffactau ail law ac yn y blaen.

Bydd amrywiaeth o weithgareddau wedi eu neilltuo ar gyfer y plant, peintio wynebau, yr anifail anwes mwyaf diddorol ac yn y blaen.

Bydd y ffair ar gae Maescanol, ger y llyn i ddechrau am 12.00y.p. hyd at 3.30y.p. Gwerthfawrogi syniadau a chefnogaeth yn fawr iawn.

Medrwcw gysylltu gyda Mrs Rachel Thomas, Dolwar Fach, Pencarreg ar 01570 421361 i drafod syniadau ac wrth gwrs y Ficer William Strange.

## Aduniad Ysgol Pencarreg

Cynhelir yr aduniad ar Fehefin 22ain yn y Llew Du, Llanybydder am 6:30y.h.

Diolch i Mr Von Abel, gynt o fferm Maesbach am

anfon y llun isod a'r dyddiad oedd Chwefror 1934.

Mae tystiolaeth bod addysg trwy gyfrwng yr Iaith Gymraeg wedi ei gyflwyno i blant ardal Pencarreg am dri mis yn ystod y Gaeaf, adeg go dawel gan y ffermwyr mor bell yn ôl â 1741. Un o ysgolion Gruffydd Jones fyddai hon.

Agorwyd Ysgol Dolgwm Board School ar yr 28ain o Fai 1877 a'r prifathro cyntaf oedd Mr John Davies.

Cynhelid Ffair Pencarreg ar y banc ger yr Eglwys ar hydref 11eg a byddai gwyliau i'r disgyblion.

Cyflwynwyd addysg drwy gyfrwng yr Iaith Gymraeg ond dim ond i esbonio'r dasg. Derbyniodd y disgyblion addysg o radd uchel e.e. yn 1898 llwyddodd David Jones yn yr Ysgoloriaeth uchaf i fynychu Coleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Diddorol oedd darllen bod y disgyblion ym mis Mai 1914wedi casglu dros 200 amrywiaeth o flodau a phlanhigion i'w harddangos yn Sioe 'Bath & West' a gynhelid yn Abertawe.

Gosodwyd y casgliad yn unigol ar gerdyn wedi mowntio a'u henwau yn Lladin, Saesneg ac yn Gymraeg o dan bob un.

Yn 1926 gwerthwyd dau lyfr, rhodd gan y Parch Ganon J. Silas Evans, B.A., F.R.A.S. Neuadd tuag at brynu rhagor o lyfrau o lyfyrgeall yr ysgol.

Ewythr i'r diweddar Mr Jack Evans, Blaenbidernin oedd Silas Evans ac mae'n enwog am ysgrifennu'r llyfr cyntaf a gafodd ei gyhoeddi yn Gymraeg yn astudio Seryddiaeth a Seryddwyr.

Credai Silas Evans y byddai'n fantais pe bai'r Seryddiaeth yn cael eu dysgu yn ein hysgolion fel un o'r pynciau y dylai pob plentyn ymgyfarwyddo rhyw gymaint ag ef.

Dywed 'y mae'r sêr ymhob oes wedi tanio awen y bardd, ac y mae pob seryddwr i ryw raddau yn fardd a phob bardd yn seryddwr.'

Hoffais yn fawr iawn ddaones, M.A., Aberystwyth yn 1923. "I Serydd a Chymro a cham arno, gyda'm gobait y caiff ei lyfr groeso mawr gan ei gydwladyr."

Y gŵr y sydd  
gâr y sêr,  
Ni châr ef  
chwarae ofer;  
Wynebau'n  
wyl, heb wanhau,  
Lwybrau anial  
wybrennau,  
A'i lygaid yn  
cilagor

Drws ar wych  
drysorau Iôr.

Mae'n  
amwng bod  
ardal Pencarreg  
yn gyfoethog  
mewn bobol ag  
amrtywiaeth o  
ddiddordebau,  
'slawer dydd ac  
heddiw.





Pedwar rhedwyr o'r clwb yn cystadlu yn hanner marathon Eryri, Simon Hall yn gorffen mewn 1:35:06, Dee Jolly 1:39:30 ac ail fenyw agored, Tony Hall 1:40:41, Dawn Kenwright 1:46:06 ac yn ennill y wobwr menywod 55.

Hanner Marathon y Barcud Coch yn Bwlch Nant yr Arian, Aberystwyth, Glyn Price oedd yn gyntaf nôl o'r clwb mewn 1:35:51, Gethin Jones 1:38:29, Michael Davies 1:40:53, Calvin Williams 1:51:57, Kevin Hughes 1:53:01, Tony Hall 1:53:40, Nigel Davies 1:55:07, Dee Jolly 1:56:52, Caryl Davies 1:59:55, Dawn Kenwright 2:03:16, Helen Willoughby 2:05:43, Gudrun Jones 2:55:10. Hefyd roedd ras pencampwriaeth trail a Dee Jolly yn ennill y fedal arian a Caryl Davies yr efydd yn ras agored, Helen Willoughby m45 yn cael yr efydd, a Dawn Kenwright yn cael y fedal aur menywod 55, a Glyn Price medal aur dynion 45. Y ras i blant iau oedd pencampwriaeth Cymru, Caitlin Page yn ennill y fedal aur mewn 22:16 a Ffion Quan yn gorffen yn safle 16ed. Dydd Sul oedd ras y Diafol a Helen Willoughby yn gorffen mewn 3:01:06.

Dydd Gwyl Banc Mai a'r tywydd yn braf i ras hwyl Cwrtnewydd. Felipe Jones Aberystwyth AC enillodd y ras 22:16, 2il Dylan Lewis Sarn Helen 23:30, 3ydd David Hawes 24:41. 1af d40 Steven Holmes Sarn Helen 25:07, 2il Chris Schroder Sarn Helen 27:33, 3ydd Nigel Davies Sarn Helen 29:13. 1af d50 Mark Dunscombe 27:00, 2il Mark Terry Trots 27:44, 3ydd Gordon Orme Cardigan RC 28:19. Dee Jolly Sarn Helen enillodd ras y menywod mewn 28:41, 2il Caryl Davies Sarn Helen 30:18, 3ydd menywod agored Katie McDermott 34:17. 1af m35 Jill Wilcox Pembs Harriers, 32:29, 2il Eleri Rivers Sarn Helen 32:44, 3ydd Alison Griffiths Pembs Harriers 37:33, 2il m45 Helen Willoughby Sarn Helen 33:08, 2il Sue Lloyd Pembs Harriers 34:54, 3ydd Pauline Charlett Pembs Harriers 42:32. Sarn Helen dynion aeth ar wobwr tim. Ras y plant Aled Sion Jones o Aberystwyth AC enillodd ras 300 medr 12:15, 2il Thomas Willoughby Sarn Helen 13:33, 3ydd Tomos A Jones Sarn Helen 13:48, Grace Page Sarn Helen roedd y gyntaf nôl yn ras y merched 14:55. 2il Naomi Davies Bro Pedr, 16:45, 3ydd Ceris Hicks Sarn Helen 19:05. Ras 1500 medr 1af Daniel Ifan Jones Sarn Helen 5:57, 2il Gwion Griffiths Payne Sarn Helen/Y Dderi 6:25, 3ydd Harry Worth Pembs Harriers 6:30, merch gyntaf Becca Ann Jones Sarn Helen 6:47. 2il Heledd Jenkins Sarn Helen 7:06, 3ydd Alaw Jones Cwrtnewydd 7:17.

Ras goffa Jan Younger 10k yn Neyland, Glyn Price 37:14, Gethin Jones 38:03, Michael Davies 38:12, roedd y tri yn nôl yn gyntaf yn y category d40. Teifion Davies 40:21, Nigel Davies 45:16, Mitchell Readwen 48:50, Allen Watts 1:35:55.

Roedd y tywydd yn braf iawn i ras Sarn Helen 16.5 o filltiroedd a gychwynodd o glwb rygbi Llambled, draw am Gellan, lan rhiw serth Talyfan ac allan i Esgair Goch, lawr i Ffarmers, ac i fyny y 'graig', lawr gwared Pal i Lanfair Clydogau, a nôl dros goedwig Longwood. Cafodd y ras ei noddi gan Simon Hall, cigydd, Stryd y Coleg, Llambled a Dŵr Tynant. Garth Ayres o Bort Talbot Harriers enillodd y ras mewn awr 50 munud, 33 eiliad, 2il Mike Evans Trots 1:52:04, 3ydd Dylan Lewis Sarn Helen 1:58:13. Y tair gwobr dynion 40 yn mynd i redwyr Sarn Helen, Glyn Price 1:58:41, Gethin Jones 2:02:36, Daniel Hooper 2:03:16, 1af d 50 Peter Osborne Llanelli AA 2:11:2, 2il Dave Powell Aberystwyth AC 2:15:18. 3ydd Mark Dunscombe Sarn Helen 2:15:45. Katie Beecher o Les Croupiers enillodd ras y menywod 2:11:37, 2il menyw agored Caryl Davies Sarn Helen 2:27:17, 3ydd Dee Jolly Sarn Helen 2:30:27, 1af m45 Sian Roberts Trots 2:12:14, 2il Nicola Quinn Rhedwyr Emlyn 2:15:34 3ydd Helen Willoughby Sarn Helen 2:35:56, 1af m35 Mandy Morris Port Talbot Harriers 2:26:26, 2il Eleri Rivers Sarn Helen 2:56:09. Sarn Helen dynion enillodd y tîm wobwr Sarn Helen Dylan Lewis, Glyn Price, Gethin Jones and Daniel Hooper.

Ras 1.5 filltir yn cael ei hennill gan fachgen ysgol gynradd Llywelyn Jones Sarn Helen 11:51, 2il Daniel Jones Sarn Helen 12:04, 3ydd Aled Thomas Carmarthen Harriers 12:43, 1af merch ysgol gynradd Becca Ann Jones Sarn Helen 14:27, 2il Rachel Priddey Sarn Helen 14:46. 3ydd Mali Fflur Jones Sarn Helen 16:21. 1af dan 15 Aled Sion Jones Aberystwyth 11:59. 2il Thomas Willoughby Sarn Helen 13:11. 3ydd Daniel Willoughby Sarn Helen 13:54, 1af yn ras y merched Grace Page Sarn Helen 4:13. 2il Ceris Hicks Sarn Helen 18:55, 3ydd Sara Jones 19:01.

Mae clwb rhedeg hir sefydledig Llambled, Sarn Helen wedi ail-gydio mewn beicio erbyn hyn, gan gynnal sesiynau seiclo rheolaidd a chystadlu ar hyd a lled Cymru.

Cystadlodd Gareth Payne a Chris Schröder mewn ras fynydd yn Llanwrtyd Well, ras y Barcud Coch a'r Diafol, Gareth Payne yn ennill y cwrs 80km a Chris Schröder yn gyntaf dros 60km. Gareth Payne yn drydydd yn yr ail gyfres draws gwlad yn Coed y Brenin. Cystadlodd Chirs Schröder yn Parc Margam, death yn bedwerydd vet yn ras trawsgwlad Cymru ac yn gorffen yn bedwerydd yn y gyfres. Gorffennodd Gareth Payne y Dyfi Enduro yn seithfed. Os am ymuno â'r clwb beiciau mynydd, ffoniwch 01570 434751 am ragor o fanylion.

Dydd Sadwrn 27 o Ebrill aeth chwech o glwb beicio Sarn Helen lawr i Dŷ Ddewi i gystadlu yn ras daith beicio sir Benfro. Roedd y cwrs yn gant ag wyth o filltiroedd a aeth o amgylch mynyddoedd y Preseli. Delme Rees yn gorffen mewn 9 awr 58 munud, Dorian Rees a Carwyn Thomas 10 awr 14 munud, Eric Rees a Keith Evans 10 awr 19 munud a Kelvin Evans 11 awr 6 munud.

Ar y 11fed o Fai, bu Carwyn Thomas a Dorian Rees yn Leominster yn cystadlu yn yr Arrow Challenge, roedd y cwrs yn chwech deg wyth o filltiroedd a gymerodd 4 awr 35 munud i'w gwblhau.

Ar ddiwrnod ras 16.5 o filltiroedd Sarn Helen aeth y beicwyr gyda rhai ffrindiau ar daith trideg saith o filltiroedd. Dai Charles Evans yn gorffen mewn 2 awr 18 munud, Kevin Hughes a Keith Evans 2 awr 20 munud, Emyr Hargreaves 2 awr 21 munud, Rhodri Williams 2 awr 42min, Granville Evans a Kelvin Evans 2 awr 43 munud, Martin Williams 2 awr 55 munud, Brett Garner a Jeff Evans 3 awr 3munud, Eric Jones a Elinor Morgan 3 awr 44 munud a Aled Williams (heb orffen). Gorffennodd y daith yn nghlwb rygbi Llambled, lle bu'r beicwyr a'r rhedwyr yn mwynhau'r tywydd braf.

Mae clwb beicwyr rhewl Sarn Helen yn cwrrd bob nos Fawrth ym maes parcio y Rookery ar bwys Canolfan hamdden Llambled am 6.30y.h. Cewch afael arnom ni ar [www.sarnhelen.org.uk](http://www.sarnhelen.org.uk) a facebook.

## Sefydliad y Merched

Daeth y Gangen ynghyd ar ddydd Mawrth y 7fed o Fai yn y ganolfan gyda'r Llywydd Ann Lewis yn croesawu pawb i'r noson. Da oedd gweld Brenda ac Irene yn ôl wedi

llawdriniaeth yn ddiweddar. Llongyfarchodd Tegwen ar ddod yn Famgu ar enedigaeth merch fach Elsi Megan. Llongyfarchodd Avril hefyd ar ôl iddi ddathlu penblwydd

arbennig yn 80 mlwydd oed. Trefnodd y Gangen de prynhawn hyfryd yn yr Hedyn Mwstard i ddathlu'r achlysur. Yr oedd hyn yn syrpris mawr iddi pan gyrhaeddodd gyda Gwyneth, Avril wrth gwrs oedd un o'r rhai oedd wedi sefydlu'r Gangen yng Nghwman.

Diolchodd Avril i bawb a oedd wedi dod am yr anrheg personol a gafodd.

Croesawodd Ann Lewis y Wraig Wadd am y noson sef Mrs Davina Davies oedd yno gyda'i gŵr. Mae yn enedigol o Dolauddon, Maesycrugiau ac wedi graddio yng Ngholeg Aberystwyth. Yn anffodus mae wedi colli ei golwg dros gyfnod o ddeng mlynedd. Ei thestun oedd "Cŵn tywys i'r dall" ac yr oedd wedi dod â dau gi ganddi sef Mason, sydd erbyn hyn wedi ymddaeol a Barney, ei chi tywys presennol. Cafwyd noson ddiddorol iawn yn ei chwmmi am hanes cefndir dysgu y cŵn i arfer y bobl dall. A diolchwyd iddi gan Joyce Williams am ddod atom ac hefyd am y gwaith yr oedd yn gwneud i godi arian at yr elusen.

Darpyd te a bisgedi gan Joyce a Veronica.

## Pwyllgor Apêl

Mae Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn dod i Sir Gaerfyrddin yn 2014. Mae holl bentrefi y sir yn brysur yn cynnal pwyllgorau apêl, er mwyn codi arian tuag at yr Ŵyl. Bydd angen i blwyf Llanybydder a Chwman gasglu £4,000. Mae pwyllgor Apêl wedi ei sefydlu ac erfyniwn am eich cefnogaeth a'ch cyfraniadau i'n helpu i gyrraedd y nôd. Os ydych yn dymuno cyfrannu anfonwch eich rhodd at Mrs Ann Davies, Brynteifi, Cwmann. Byddwn yn ddiolchgar am unrhyw gyfraniad. Nodir y bydd rhoddion dros £40-00 yn cael eu cydnabod yn rhaglen yr Eisteddfod.

## Clwb 225

1. Dilys Godfrey, 41 Heol Gathren, Cwmann, 169. 2. Carwyn Lewis, 18 Heol Hathren, Cwmann, 83. 3. Ian, d/o Bryngolau, Cwmann, 197. 4. Carol Powell, Penbryn, Cwmann, 142. 5. David Davies, Glenview, Pencarreg, 64. 6. Seren Ling, Blynbedw, Cwmann, 104. 7. Christina a Shaun Davies, Plusant View, Llambled, 80. 8. Dorothy a Elfan James, Mark Lane Bakery, 235. 9. Maureen Evans, Brynmaen, Cwmann, 49.

## Clwb 125 – Neuadd Sant Iago

1. Andrea Lewis, Lletygywn, Llanybi, 148. 2. Julian Evans, Bryn Llly, Bryn Rd, Llambled, 113. 3. Eiry Jones, Eirlyn, Brynsteffan, Llambled, 91. 4. Eleri Davies, 13 Heol Hathren, Cwmann, 68. 5. Dinny Hardy, Cwrt Deri, Cwmann, 9. 6. Christopher Northam, 38 Bro Einon, Llanybydder, 88. 7. Muriel Davies, 2 Nant-y-glyn, Cwmann, 93. 8. Noel James, Emlyn Cottage, Cwmann, 42. 9. Tony Hall, Glanaber, Cwmann, 75.

## Ysgol Carreg Hirfaen

Llongyfarchiadau mawr i Rory Blyth o flywyddyn 2 am ddod yn ail yn ei waith argraffu



Rory Blyth. Ysgol Carreg Hirfaen - 2il yn ei waith argraffu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.



Beca Mai - Ennill ras Blwyddyn 5 - pencampwriaeth Trawsgwlad Cymru.

yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Argraffodd Rory lun o sebra.

Buodd plant Blwyddyn 2 yn cymryd rhan mewn chwaraeon Potes yr Urdd yng Nghanolfan Hamdden Llanbed yn ddiweddar. Cafwyd prynhawn llawn hwyl yno yn chwarae gemau amrywiol.

Fel rhan o'n gwaith ar thema'r 'Môr' y tymor yma buodd Blwyddyn 1 a 2 ar drip i Gei Newydd. Cafwyd diwrnod pleserus iawn yn casglu cregyn, arsylwi ar y cychod a braslunio. Buon yn ffodus i gwrdd â'r cyn chwaraewr rygbi Paul Thorburn yno hefyd. Roedd ef a'i griw ar daith o gwmpas arfordir Cymru i godi arian i gronfa'r Bad Achub.

Mae'r ysgol wedi bod yn cefnogi'r 'Ymgyrch Genedlaethol Gerdded i'r Ysgol.' Diolch i bawb sydd wedi gwneud yr ymdrech i gerdded.

Mae plant y Cyfnod Sylfaen wedi bod yn brysur yn plannu nifer o blanhigion yn ein gardd o dan oruchwyliaeth Mrs Karen Bexon. Rydym yn edrych ymlaen at gael cnwd da o datws, pys a bresych ac i weld ein blodau haul yn tyfu.

Cynhaliwyd trawsgwlad rhanbarth Ceredigion yn ystod y mis a braf yw cael rhannu llwyddiant yr ysgol yn y maes rhedeg. Cipiodd Beca Mai Roberts y wobwr gyntaf, Daniel Ifan

Jones a Mali Fflur Jones yr ail wobwr a Llywelyn James a Chelsea Jenkins y 5ed wobwr. Llongyfarchiadau mawr i chi gyd ac i bawb arall oedd yn cynrychioli cylch Llambled a'r ysgol.

Ar ddydd Sadwrn Mai 11eg aeth llawer o'r plant i gynrychioli'r ysgol ym mhencampwriaeth Trawsgwlad Cymru. Llongyfarchiadau enfawr i Beca Mai Roberts am ennill ei chystadleuaeth gan redeg ras arbennig o dda o'r cychwyn gan arwain yr holl ffordd rownd.

Rhedodd Daniel Ifan Jones ras wych wrth iddo orffen yn 4ydd, Chelsea Jenkins yn ddegfed ac i Lowri Fflur Davies, Gwennan Rowcliffe, Sion Aled Evans, Charlotte Howell a Dafydd Jones am gwblhau'r ras hir. Da iawn chi.

Mae'r disgyblion wedi bod yn brysur yn ystod y tymor yn cymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau ar y meysydd chwarae lleol a Sirol gan brofi llwyddiant mawr.

Bu dau dîm pêl-droed yr ysgol yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Pêl-Droed Ceredigion ar ddechrau'r tymor gan wneud yn arbennig o dda. Enillodd tîm y merched ei lle yn y chwarteri cyn colli yn greulon ar giciau cosb.

Profodd y bechgyn lwyddiant hefyd trwy ennill dwy gêm a cholli tair arall yn erbyn ysgolion mawr y Sir o un gôl i ddim yn unig. Perfformiad canmoledig o ystyried bod 3 o fechgyn blwyddyn 4 yn ein carfan.

Bu disgyblion blwyddyn 6 yr ysgol yn derbyn hyfforddiant reido beic yn ddiogel yn ddiweddar. Yn dilyn bore o hyfforddiant ar iard yr ysgol aeth y plant allan yn y pnawn i ymarfer ar heolydd y pentref cyn cael prawf ymarferol ac ysgrifenedig ar ddiwedd y dydd. Braf iawn dweud bod yr holl blant wedi llwyddo. Da iawn chi.

Yn ystod tymor y Gwanwyn bu disgyblion blynyddoedd 5 a 6 yr ysgol yn cymryd rhan mewn cynllun Technoleg cyffrous iawn sef Her F1.

Roedd yr her yn cynnwys ymchwilio, cyllido, cynllunio ac adeiladu car rasio F1 i gystadlu yn erbyn ysgolion cynradd eraill ar draws De Cymru.

Bu 35 o ddisgyblion ynghlwm â'r Her yn Carreg Hirfaen a chwblhawyd llawer o waith trawsgwricwlaidd gwerthfawr oedd yn cynnwys gwaith Rhifedd, Iaith, Gwyddoniaeth, TGCh a Hanes. Datblygwyd llawer o sgiliau entrepreneuriaeth hefyd trwy godi nawdd, delio â chyllid ac archebu amrywiol nwyddau marchnata.

Heb os uchafbwynt yr Her oedd y diwrnod rasio yn Amgueddfa'r Glannau, Abertawe. Rhaid oedd paratoi arddangosfa o'r gwaith cywaith yn ogystal a rhoi cyflwyniad llafar i'r beirniaid yn y bore. Yna yn y pnawn cafwyd cyfweiliad gan y



Yn y llun mae Eric a'i wraig Avril, gyda Mr a Mrs Stan Evans cadeirydd Cymuned Bro Pencarreg, a hefyd Mr Tommy Price y person sydd wedi bod hiraf ar y pwyllgor. Bu Eric yn y swydd fel clerwr y Cyngor Bro am 45 o flynyddoedd. Roedd y Cyngorwyr am dangos eu gwerthfawrogiad iddo mewn cinio yn Castle Green, Llanbed, ac hefyd rhoi anrheg iddo. Fe gyflwynodd Ronnie ac Ann Roberts flodau i Avril am ei gwaith hithau hefyd.



Cyflwyno sicciau i Ymddiriedolaeth Ffibrrosis Systic Sic o £11,430 i Ymddiriedolaeth Ffibrrosis Systic a £2,000 i Lyn Thomas a redodd ym Marathon Llundain tuag at yr un elusen. Dyma arian a godwyd yn Nawns Nancy a chyfaniadau lleol. Diolch yn fawr i bawb.



Beca Mai, Daniel a Mali Ysgol Carreg Hirfaen - trawsgwlad rhanbarthol yr Urdd.

beirniaid ac i orffen cafwyd cyfle i rasio'r car.

Ar dderfyn dydd cyflwynwyd y gwobrau i'r ysgolion llwyddiannus gan gynrychiolwyr un o dimau Fformiwla 1 Prydain.

Er nad 'Hebog Hirfaen' oedd y car cyflymaf yn y gystadleuaeth, er mawr balchder i dîm Carreg Hirfaen, cyflwynwyd iddynt un o brif wobrau y gystadleuaeth - sef y wobwr am y portffolio gorau o waith. Profiad

bendigedig i'r aelodau oedd cael camu i'r llwyfan o flaen cynulleidfawr i'r dderbyn tlws hardd o lechen Gymraeg. Llongyfarchiadau mawr i bawb a gyfrannodd i'r cywaith!

Hoffem ddiolch yn arbennig i'r holl gwmnïau lleol a noddodd dîm Her F1 Hebog Hirfaen ac i Staff Adran Dechnoleg ac Adran Wyddoniaeth Ysgol Bro Pedr am eu cefnogaeth, defnydd o'u cyfarpar ac o'u harbenigedd a'u hamser.

## CFfI Ceredigion

Dros benwythnos Calan Mai aeth criw o 54 o aelodau CFfI Ceredigion ar daith i benwythnos Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Ffederasiwn Cenedlaethol Clybiau Ffermwyr Ifainc (Cymru a Lloegr). Cafwyd llawer iawn o sbort yn cymdeithasu drwy gydol y tridiau – mewn gwisg smart, Where's Wally a crysau polo! Llongyfarchiadau i Gwynne Davies, Llanddewi Brefi ar gael ei ethol yn un o is-lywyddion y mudiad yn genedlaethol eleni eto ac i Gwennan Davies, Llanwenog ar ddod yn ail fel Aelod Hŷn y Flwyddyn dros Gymru a Lloegr.

Efallai fod rhai ohonoch yn ymwybodol fod Rali Ewropeaidd 2014 yn cael ei westeio gan Ffermwyr Ifainc Cymru ym Mharc Margam ym mis Awst y flwyddyn nesaf. Mi fydd dros 100 o aelodau sy'n gysylltiedig gyda mudiadau gwledig o ar draws Ewrop 'Rural Youth Europe' yn tyrru i Gymru i astudio'r thema: 'Y Byd Yfory: Creu Dyfodol Cynaliadwy i Chi, Eich Mudiad a'ch Cymuned Wledig'. Os oes unrhyw berson neu fusnes am noddi'r digwyddiad neu unrhyw aelod neu gyn-aelod am gynorthwyo mewn unrhyw fodd cysylltwch â Gwennan drwy swyddfa'r CFfI yng Ngheredigion.

Tyrrodd aelodau'r Sir i farchnad Rhuthin ar yr 20fed o Ebrill i gystadlu yn Niwrnod Gwaith Maes CFfI Cymru. Daeth y tîm Barnu Stoc Hŷn sef Dyfrig Williams (Llangwryfon), Llyr Jones (Pontsian), Dewi Jenkins (Talybont) a Delyth Jones (Tregaron) i'r trydydd safle, a llongyfarchiadau mawr i Delyth ar ddod yn 2il fel Stocmon y Flwyddyn. Cystadlwyd yng nghystadlaethau'r Ffensio, ATV, Effeithlonrwydd a Diogelwch a'r Barnu Stoc Iau ac ar ddiwedd y diwrnod daeth CFfI Ceredigion i'r 4ydd safle. Llongyfarchiadau ichi gyd!

Cynhaliwyd Chwaraeon y Sir ar ddydd Sadwrn y 27ain o Ebrill ar gampws Ysgol Bro Pedr, Llanbedr Pont Steffan – cafwyd timau ac aelodau yn mentro wrth chwarae Pêl-Rwyd, Pêl-Droed, Rownderi, Ultimate Frisbee, Tynnu'r Gelyn Iau a Dodge Ball. Pob dymuniad da i glybiau Pontsian, Llanddewi-Brefi, Llanwenog a Lledrod yng Nghystadlaethau Chwaraeon Cymru ar yr 22ain o Fehefin ar dir yr ysgol.



Cynhaliwyd Gŵyl Tyddyn a Gardd y Sioe Frenhinol yn Llanellwedd ar ddydd Sadwrn a dydd Sul y 18fed a'r 19eg o Fai. Cynhaliwyd cystadlaethau Ffotograffiaeth CFfI Cymru ar yr un penwythnos. Llongyfarchiadau i glybiau Mydroilyn, Llanwenog a Phontsian am eu cyfanwaith o luniau a cafwyd eu harddangos ar stondin y CFfI.

Ar nos Fercher yr 22ain o Fai aeth aelodau'r sir i gampws Felin-fach i dderbyn cymorth gan staff y swyddfa i lenwi ffurflenni'r archediad OCN sydd ar gael i unrhyw aelod sydd wedi cymryd swydd o fewn eu clybiau neu sydd wedi cystadlu mewn rhai cystadlaethau megis Gosod Blodau. Mae'n adnodd gwerthfawr ar gyfer aelodau sydd yn ymgeisio am lefydd mewn colegau neu ar gyfer swyddi.

Cofiwch ddod i gefnogi aelodau'r mudiad yn Rali'r Sir ar y 15fed o Fehefin yn Nhalybont. Y thema eleni yw 'Y Celtaidd Ddoe a Heddiw'. Dyma ichi amserlen y diwrnod: 8.00yb Arddangosfa'r Ffederasiwn; 9.00yb Barnu Gwartheg Duon Cymreig; 9.15yb Cuginio; 9.15yb Gosod Blodau; 9.15yb Crefft; 9.30yb Ar y Newyddion; 9.30yb Dawnsio; 9.30yb Tirnod Cenedl Celtaidd; 10.00yb Crefftau Gwledig; 10.30yb Coedwigaeth; 11.15yb Barnu Defaid Torddu; 11.30yb Her Geltaidd; 2.00yp Gwisgo; 2.00yp Mae gan Celtwyr Dalent; 2.00yp Cneifio Defaid; 2.00yp Barnu Cobiau Adran D; 2.00yp Helfa Sborion Geltaidd; 3.30yp Ras Siarlot Geltaidd; 3.30yp Tablo; 4.30yp Tynnu'r Gelyn.

### Clwb 200

1af – Dafydd a Delyth Lloyd Jones, Ystrad Dewi, Llanddewi Brefi, Tregaron; 2il – Ann Thomas, Llwynderw Fach, Llanarth; 3ydd – Anwen Davies, Caehaidd, Aberaeron.

### Dyddiadur C.Ff.I Ceredigion:

Mehefin 15fed - Rali CFfI Ceredigion, Fferm Berthlwyd, Talybont; Mehefin 16eg - Cymanfa'r Rali, Capel Bethel, Talybont 7.30yh; Mehefin 19eg – Pwyllgorau'r Sir, Campws Theatr Felinfach 7.30yh; Mehefin 23ain - Chwaraeon Cymru, Campws Ysgol Bro Pedr; Mehefin 26ain - Athletau'r Sir, Caeau Ysgol Uwchradd Aberaeron, 6.30yh; Mehefin 28ain - It's a Knockout Fforwm Ieuenctid, Cêl Aeron, 6.30yh; Mehefin 30ain - Rygbi 7's a BBQ, Clwb Rygbi Aberaeron 2yp; Gorffennaf 3ydd – Grwpiau Focws Pwyllgor Eisteddfod CFfI Cymru Ceredigion 2014, Campws Theatr Felinfach 7.30yh; Gorffennaf 6ed - Trip ddiregel i aelodau dros 18 oed, Aberaeron, 12.30yp.

gan Helen Howells, Uwch-swyddog Cefn Gwlad, Cyfoeth Naturiol Cymru



## Britheg y Gors ar safle Rhos Llawr Cwrt

Mae Rhosydd Ceredigion yn ardaloedd arbennig ar gyfer pob math o rywogaethau prin, ond un o'r anifeiliaid mwyaf arbennig a welir ar y cynefinoedd yma yw'r iâr fach yr haf – Britheg y Gors (Euphydryas aurinia). Mae gan Fritheg y Gors adenydd â phatrymau brithog aur a brown ar gefndir du. Mae ochr waelod yr adenydd wedi'i haddurno â phatrymau melyn, oren a du. Maent yn dodwy wyau melyn mewn grwpiau mawr, gyda hyd at 350 o wyau mewn un grŵp ar ddaill Tamaid y Cythraul (Succisa pratensis), sef yr unig blanhigyn y mae'r lindysyn yn ei



Britheg y Gors. Llun gan David Wheeler

fwyta. Mae'r lindysyn yn ddu ac yn bigog ac yn ymgasglu mewn grwpiau, gan wau gwe sidan trwchus o'u hamgylch i'w cadw'n gynnes ac i gysgodi ynddynt hyd nes eu bod yn tyfu'n fwy lle maent yn byw yn annibynnol cyn iddynt greu crysalis.



Gwe Sidan yn cynwys y Lindysyn. Llun gan David Wheeler

Mae poblogaethau Britheg y Gors o dan fygythiad ar draws Ewrop, ac mae'r rhywogaeth ymhlith un ar ddeg o ieir bach yr haf a restrir ar Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig. Mae'r sefyllfa'n ddirifol oherwydd mae eu cynefin yn lleihau ac yn dirywio. Yn dilyn yr Ail Ryfel Byd a'r galw ar ffermwyr i gynyddu cynhyrchiant bwyd ar gyfer y boblogaeth, collwyd ardaloedd sylweddol o rostiroedd a gwlyptiroedd trwy ddraenio ac ailhadu. Felly, mae'r ardaloedd sydd gennym ar ôl heddiw yn bwysig iawn ar gyfer sicrhau dyfodol i Fritheg y Gors. Heddiw, y gwrthwyneb sy'n gyfrifol am fygwth goroesiad Britheg y Gors. Yn dilyn cwmp ym mhrisiau da byw, ynghyd â'r problemau'n ymwneud â'r clefyd diciâu, mae diffyg pori ar Rosydd Ceredigion yn bryder mawr i gadwraethwyr. Mae cynnal gwartheg ar y cynefinoedd yma'n hollbwysig, oherwydd maent yn pori mewn modd sy'n sicrhau llystyfiant amrywiol ac yn creu'r amodau gorau ar gyfer rheoli cynefinoedd i Fritheg y Gors.

Safle sy'n chwarae rhan bwysig mewn ymchwil arloesol i reoli rhostiroedd ac sy'n gartref i un o'r poblogaethau mwyaf o Fritheg y Gors yw Gwarchodfa Natur Genedlaethol Rhos Llawr Cwrt a leolir yn Nhalgarreg. Mae niferoedd Britheg y Gors ar y safle yma wedi cael eu monitro a'u cofnodi ers tair degawd ac mae'r arbroffion ar lefelau pori stoc ac ymchwil yn ymwneud ag adfer cynefinoedd ar dir amaethyddol wedi'i wella wedi chwarae rhan bwysig mewn ffurfio cynlluniau amaeth-amgylcheddol fel Tir Gofal a Glastir.

Mae safle Rhos Llawr Cwrt hefyd yn ddiddorol oherwydd ei hanes. Sonir am y fferm mewn dogfennau sy'n dyddio'n ôl i 1214 mewn siarter i Fynachod Sistersaidd Hedy-gwyn gan y Brenin Ioan. Wrth gerdded ar hyd y Warchodfa, ceir cipolwg ar dirwedd hanesyddol gan brofi sut olwg fyddai ar Ddyffryn Cletwr ganrif yn ôl. Roedd yr ardal yma'n bwysig iawn yn y gorffennol oherwydd, cyn dyfodiad y rheilffyrdd, mawn oedd y prif danwydd a ddefnyddid i wresogi cartrefi. Gwelir olion yr hen arferiad o dorri mawn ar y warchodfa heddiw.

Yn ogystal â'r cynefinoedd arbennig sy'n bodoli ar Ros Llawr Cwrt, mae'n safle diddorol i ymweld ag ef oherwydd ei nodweddion tirweddol, yn enwedig y pingo. Ar un adeg, roedd sawl pingo i'w gweld yn Nyffryn Cletwr, ond mae llawer wedi diflannu trwy welliannau amaethyddol ac aredig. Ffurir pingo wrth i ddŵr tanddaearol rewi ac ehangu gan wthio'r pridd uwchben i fyny i greu bryn bychan. Wrth i'r ddŵr yma doddi, mae'r bryn yn cwmpo gan adael pant wedi'i amgylchynu gan fownt mewn siâp cylch. Bydd yn rhaid i chi ymweld â'r safle i weld hyn â'ch llygaid eich hunain!

Mis Mehefin yw'r amser delfrydol i ymweld â Gwarchodfa Rhos Llawr Cwrt, ac ar ddiwrnod heulog gellir gweld cannoedd o Frithegion y Gors yn hedfan ar hyd y caeau. Os hoffech drefnu ymweliad â'r safle, cysylltwch â'r warden, David Wheeler, ar 01248 387335. Mae'r warchodfa ar agor i'r cyhoedd, ond mae'n werth cysylltu â'r warden cyn ymweld gan fod gwartheg yn pori ar y safle ac mae yno sawl lle cyn gwlyb a all fod yn beryglus.

Os hoffech dreulio diwrnod yn yr awyr agored a bod yn rhan o ymgyrch wirfoddol i fonitro blodau gwyllt, gan gynnwys cyfrif y Tegeirian Llydanwyrdd a'r Tegeirian Llydanwyrdd Bach, cynhelir diwrnod agored ar Gae Blaenddyffryn, Cwmman ar yr 22ain o Fehefin 2013 rhwng 11yb a 3yh. Cofiwch fynd â chinio a diod, yn ogystal â gwisgo dillad ac esgidiau addas. Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan, cysylltwch â Trevor Dines ar 01722 342759 neu e-bostiwch [trevor.dines@plantlife.org.uk](mailto:trevor.dines@plantlife.org.uk)



# Drefach a Llanwenog

## Ysgol Llanwenog



Llongyfarchiadau mawr i Chloe Marie Jones ar ennill trydedd wobrn yng nghystadleuaeth Celf a Chrefft Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni. Cafodd ei gwaith ei arddangos yn y babell Gelf ar y maes yn yr ŵyl.

Bu Janet Hawkins o fudiad "Bible Explorers" yn yr Ysgol yn cyflwyno tystysgrifau i blant yr Adran Iau am gwblhau cwrs astudio'r Beibl. Cafodd y plant fwynhad yn ymwneud â'r gweithgareddau amrywiol a ddaeth a hanesion y Beibl yn fyw iddynt.

Eleni eto croesawyd nifer o fyfyrwyr o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i'r Ysgol.

Maent yn dilyn cwrs Astudiaethau Awyr Agored ac roeddent yma i arsylwi ar yr arfer dda a gyflwyni'r yn ardaloedd allanol yr ysgol yn y Cyfnod Sylfaen, diolch i Mrs Eirlys Jones am baratoi ar eu cyfer.

Cawsom y pleser o groesawu staff a deg o blant o Auriac yn Ne Ffrainc. Roedd yr ymweliad yma yn rhan o brosiect Comeniws sy'n datblygu deallusrwydd a chysylltiadau byd eang. Cafodd y plant cyfle i gydweithio, chwarae ac i ddysgu llawer am ein bywyd bob dydd yn yr ysgol. Hefyd yn rhan o'r prosiect bu'r plant yn coginio prydiau bwyd traddodiadol Cymreig dan oruchwyliath Mrs Enfys Morgan. Buont yn cynllunio, coginio ac yn blasu'r prydiau bwyd. Cafwyd pleidlais ar ddiwedd y dydd a penderfynwyd mai'r Cawl sef, pryd bwyd Ben, Roseana, Dewi, George a Jamie oedd yr un mwyaf poblogaidd. Bydd y rysiad yn cael ei roi ar we-fan y prosiect i'w rannu gyda'r gwledydd eraill.

Bu disgyblion blwyddyn 6 ar ymweliad pontio yn Ysgol Bro Pedr. Cawsom y cyfle i gael rhag-flas o'r hyn allant ddisgwyl yn eu gwersi Technoleg a Gwyddoniaeth yn mis Medi.

Dewch yn llw i gefnogi ein diwrnod hwyl eleni a fydd ar nos Wener Mehefin yr 28ain am 4 o'r gloch. Llywydd y noson ydy Mr Stanley Griffiths. Bydd gwahoddiad i dimoedd o bedwar i gymryd rhan yn yr 'Her Cadw'n Sych' enwau i Mr Steven Greefield ar y dydd.

Dewch i fwynhau!

## Cylch Meithrin Gwenog

Hoffwn groesawu Elin Morgan a Macauley Brownhill a ymunodd yn ystod tymor y Gwanwyn ac yna i Owen Jac Jones, Max Edwards a Steffan Howells i Gylch Meithrin Gwenog yn ystod tymor yr Haf eleni. Ein thema yn ystod y tymor fydd 'Bwyd' ac rydym wedi bod yn coginio cacenau, jeli a brechdanau ac yn blasu gwahanol ffrwythau. Diolch yn fawr iawn i'r sawl wnaeth gefnogi bocsys Pasg a llongyfarchiadau i'r sawl a wnaeth ennill wyau Pasg yn rhan o'r raffl. Casglwyd £247. Dydd Sadwrn, Mehefin 8fed rhwng 12 a 4 o'r gloch bydd diwrnod hwyl Y Cylch Meithrin yng Ngwesty'r Llew Du, Llanbydder. Bydd nifer o atyniadau yno i chwi a'ch plant megis gweithdy triciau syrcau, diddanwr 'Crazy Clayton' rhwng 2 a 3 o'r gloch. Bydd nifer o stondinau amrywiol a hwyl a sbri i gael i bawb felly dewch yn llw. Pe byddech yn dymuno derbyn mwy o wybodaeth am y Cylch rhwch alwad ffôn i Arweinydd Cylch Gwenog, Mrs Abigail Gregson neu Miss Heddwen Davies, Pennaeth Ysgol Llanwenog ar 01570480382.

## Pen-blwydd arbennig

Ar ddechrau mis Mai dathlodd Doreen Davies, Dol-gader ben-blwydd arbennig yn 65 oed.

Hefyd dathlodd Mrs Viria Jones, Gelli-deg ei phen-blwydd yn 70 oed yn ystod y mis.

Hefyd, fe dathlodd Mrs Annie Bowen, gynt o Arosfa ond sydd nawr yn byw yn Stryd y Coleg, Llambled ei phenblwydd yn 80 oed.

Gobeithio bod y tair ohonoch wedi mwynhau'r dathlu.

## Merch fach

Llongyfarchiadau i Nia a Pete, Vale of Cledlyn ar enedigaeth merch fach yn ystod y mis, Alaw Mai, chwaer fach i Tomos a Jac. Wyres fach i Stanley a May Griffiths, Blaenpant hefyd.

## Gor-wyr newydd

Dymuniadau gorau i Mrs Nancy Davies, Crugwen ar ddod yn hen-famgu unwaith eto, mab bach i'w ŵyr Rhydian a'i wraig Teleri yn Nihewyd.

## Y Gymdeithas Hŷn

Bu'r tywydd yn hynod garedig ar yr ail ddydd Mercher o fis Mai wrth i'r Gymdeithas fynd ar ail dripr yr haf, a throi'n gwynebau tua'r Trallwng. Arhoswyd yng nghanolfan Coed-y-Derw yn gyntaf, cyn ymweld â Chastell Powis a'r gerddi hyfryd. Nôl wedyn i Westy'r Marine yn Aberystwyth i swper, a chael pryd ardderchog cyn cychwyn am adre.



Bu plant Ysgol Llanwenog yn coginio prydiau bwyd traddodiadol Cymreig a penderfynwyd mai'r Cawl sef, pryd bwyd Ben, Roseana, Dewi, George a Jamie oedd yr un mwyaf poblogaidd.

Er y mwynhad, roedd yna gwmwl o dristwch dros y diwrnod wrth feddwl am Dilwen George, ein Cadeirydd, wedi colli ei gor-or-ŵyr bach yn 4 mis oed, ac hefyd ein is-gadeirydd Irene Jones, wedi colli ei chwaer yn ystod yr wythnos hynny. Mae'n cydymdeimlad yn fawr â'r ddwy.

Bydd y trip nesaf dydd Mercher, Mehefin 12fed yn mynd i Dretŵr a'r Fenni. Enwau cyn gynted â phosib i Yvonne Davies (480590) neu Brenda Jones (434297).

## Eglwys Santes Gwenog

Yng nghyfarfod Festri'r Pasg ym Mis Ebrill dan arweiniad ein ficer Y Parch Suzy Bale, etholwyd y swyddogion canlynol. Warden y Ficer – Mr Keith Goodall; Warden y bobol – Mr Bryan Lewis; Ysgrifennydd – Mr Keith Goodall; Trysorydd - Mrs Lynne Goodall; Cynrychiolydd cyfarfodydd y Ddeoniaeth – Mrs Pauline Roberts Jones a Mrs Wendy Mellor. Diolchodd y Ficer i bawb a fu'n weithgar a chefnogol ymhob agwedd o waith yr eglwys drwy'r flwyddyn. Talodd y ficer ddiolch arbennig i Mrs Nia Evans a fu'n warden y bobol am y dair blynedd ddiwethaf a dymunwyd yn dda iddi. Cafwyd adroddiadau'r trysorydd a'r ysgrifennyddes a diolchwyd iddynt am waith trwyadl a manwl. Yn dilyn cafwyd P.C.C. i drafod digwyddiadau'r dyfodol. Penderfynwyd gynnal Cwis yn yr eglwys fach ar 14eg o Fehefin am 7 o'r gloch ac Helfa Drysor ar y 1af o Orffennaf yn dechrau o'r eglwys am 6.00 o'r gloch, ac yn gorffen yng Nghefnhafod Gorsgoch.

Llongyfarchiadau i Gwennan Davies (Llysderi) ar yr anrhydedd o fod yn Aelod Hŷn y Flwyddyn dros Fudiad Ffermwy'r Ifanc Cymru ac ar ddod yn ail dros Gymru a Lloegr. Da iawn wir!

Danfônwn ein llongyfarchiadau i Nia, ein cyn Warden y Bobol, ar enedigaeth merch fach, chwaer i

Tomos a Jac.

Dymuniadau gorau i Mrs Marian Morgan, Rhyd-y-Felin yn ei swydd newydd gyda Chyngor Sir Gâr.

Dymunwn wellhad buan i bawb sy'n anhwylyd, a chofiwn am bawb sydd wedi colli annwyliaid yn ddiweddar.

Clwb 100: Ebrill - 1. Caroline Davies, Llys Deri; 2. Wendy Mellor, Rhiwson Isaf; 3. Glenys Williams, Llanybydder. Mai - 1. Eirlys Jones, Gellideg; 2. Arwyn Jones, Gellideg; 3. Val Thomas, Llanllwni.

## Ysgol Feithrin Drefach

Ar nos Wener 14 Mehefin bydd yr Ysgol Feithrin yn cynnal Helfa Drysor ceir. Mi fydd y car cyntaf yn gadael yr Ysgol Feithrin am 6 o'r gloch. Pris pob car bydd £5.

Mi fydd noson beicio noddedig yn cael ei chynnal yn Ysgol Cwrtnewydd ar y 5ed o Orffennaf. Bydd yna lluniaeth ar gael yn yr ysgol hefyd ac mae croeso mawr i bawb i ddod a chefnogi.

## Clwb Clonc

### Mehefin 2013

£25 rhif 454 :

Mrs Flo Williams,

Brynamlwg, Llanwnnen.

£20 rhif 43 :

Edward Davies, Llys Helyg, Rhodfa Glynhebog, Llambled.

£15 rhif 336 :

Mrs Ann Lewis, Bronwydd, Stryd-y-Bont, Llambled.

£10 rhif 382 :

Mrs Anne Pugh, Brynheulwen, Heol Tregaron, Llambled.

£10 rhif 26 :

Gareth Davies, Maesglas, Drefach.

£10 rhif 286 :

David James Jones, Gorlandeg, Llanfihangel-ar-Arth.

Bu disgyblion blynyddoedd 3 a 4 yn ymweld â Eglwys Sant Pedr Llambled a'r Mosg yn y dref fel rhan o waith y tymor. Cafwyd cyfle i baratoi ac i ofyn cwestiynau amrywiol ac yn yr Eglwys fe wnaeth y Ficer Webb fedyddio Pickles y mwnci hefyd. Dysgwyd llawer am arferion crefyddol Cristnogion a chrefydd Islam. Diolch am y croeso a gafwyd yn yr Eglwys ac yn y Mosg



Mae nifer o ymwelwyr diddorol wedi bod ym mlynnyddoedd 1 a 2 yn ddiweddar – ci, cwningen, bochdew a neidr i enwi ond ychydig fel rhan o thema'r tymor. Mae'r plant hefyd wedi cael cyfle i wyllo cywion bach yn deor yn y dosbarth. Roedd pawb wrth eu boddau wrth weld y cywion bach yn dod allan o'r wyau. Diolch i Martyn a Carol am ddod a'r wyau



a'r offer i'r ysgol – bydd y plant yn cofio'r cyffro hyn am amser hir. Bu'r disgyblion hefyd ar ymweliad â Milfeddygon Steffan a diolch am y croeso arbennig a gafwyd. Cawsant weld ble mae'r anifeiliaid yn cael eu trin a chael cyfle i ofyn cwestiynau i'r milfeddygon yno.

Llongyfarchiadau i'r disgyblion a fu'n rhedeg yn nghystadlueaeth Trawsgwlad Sirol yr Urdd. Daeth Iestyn Owens yn bumed, Ruth Davies yn seithfed ac Owen Rowcliffe yn seithfed. Daliwch ati. Bu nifer hefyd yn rhedeg yng nghystadlueaeth Cenedlaethol Trawsgwlad yr Urdd a llongyfarchiadau i bob un ohonynt am wneud ymdrech mor dda. Daeth llwyddiant arbennig i'r canlynol :-Owen Rowcliffe – 8fed yn ras bechgyn blwyddyn 4, Lucy Davies – 11 yn ras merched blwyddyn 4, Iestyn Owens – 8fed yn ras bechgyn blwyddyn 6, Dewi Hobbs – 10 fed yn ras bechgyn blwyddyn 6.



Fe wnaeth Alex, Matthew, Caiyo, Wyn, Philipa ac Oscar fwynhau mewn diwrnod o bêl-droed yn Aberystwyth yn ddiweddar a diolch i Miss Claire a Miss Carol am drefnu a gofalu am y disgyblion. Yng nghystadlueaeth



Cenedlaethol rygbi'r Urdd gwnaeth tîm y bechgyn yn arbennig o dda yn ennill tair gêm a cholli dwy a dim ond colli mas ar fynd i rownd yr wyth olaf o un cais. Da iawn chi Bryn, Guto, Iestyn, Dafydd, Dewi, Matt, Rhys, Alex, Owen H, Jac, a diolch i Mr Thomas a Mr Roderick am eich hyfforddi. Bu

disgyblion blwyddyn 5 yn gwrandao ac yn cyfrannu at gyflwyniad am hilioldeb yn ddiweddar "Show racism the red card".

Fel rhan o thema'r tymor bu disgyblion blynyddoedd 5 a 6 ar daith i fferm y Pili Palas yn ardal Aberystwyth a chael dysgu llawer am greaduriaid bach. Diolch i'r disgyblion o'r ysgol a fu'n cymeryd rhan yng nghyngerdd Côr Corisma i godi arian tuag at Ymchwil y Galon – Ffion, Sioned, Elan, Ensemble Lleisiol a'r Parti Cerdd Dant. Rydym yn gwerthfawrogi eich parodrwydd i gynrychioli'r ysgol bob amser.


Cafwyd wythnos o ymchwiliadau mathemategol yn yr ysgol â'r plant i gyd yn cael cyfle i ddod â gwahanol eitemau i'r ysgol ac i ddefnyddio sgiliau mathemateg e.e. mesur a phwyso. Dyma'r canlyniadau:-

Y Tedi Talaf 1af Molly Burgess 1 Dewi 2ail James Bouvet 5 Cothi 3ydd

Brynmor ac Annabella Gibbons 1 Teifi a 4 Creuddyn Y Daten Drymaf 1af Joseph Saunders 5 Cothi 2ail Grace Lambert 1 Teifi 3ydd Nia Beca Jones 4 Creuddyn Y Tywel Mwyaf 1af Bryn Jones 6 Grannell 2ail Georgina Price 4 Brân 3ydd Isaac Price 2 Dwynwen

Bu nifer o ddisgyblion o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghwmman yn mwynhau Chwaraeon Potes yr Urdd. Cafwyd llawer o hwyl a sbri yn chwrae'r gemau amrywiol a chreision a phop i bawb ar ôl gorffen.

Prifysgol Haf yn Llundain: Llongyfarchiadau mawr i Huw Howells o flwyddyn 10 ar gael ei dderbyn i fynychu rhaglen Prifysgol Haf pedwar diwrnod yng Ngholeg Imperialaidd Llundain. Dyluniwyd y rhaglen i gynnig blas ar sesiynau gwyddoniaeth a pheirianneg. Bydd y disgyblion yn mynd i ddarlithoedd Bioleg, Cemeg, Ffiseg, Cyfrifiannu a Mathemateg ac yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau ymarferol. Cânt hefyd eu cyflwyno i gysyniadau sylfaenol mewn peirianneg a chyfle i weld y dechnoleg gyffrous sy'n cael ei datblygu yn y labordai yn y Brifysgol ar hyn o bryd. Rydym yn falch iawn o lwyddiant ardderchog Huw. Mae nifer y llyfnydd ar y rhaglen yn brin iawn a Huw wedi ei ddewis allan o gannoedd o ymgeiswyr. Da iawn ti!



Pwyllgor Eco – Ysgol Masnach Deg y Mis: Llongyfarchiadau mawr i'r Pwyllgor Eco a'r holl ddisgyblion a fu ynghlwm â'r gweithgareddau Masnach Deg. Mae'r Ysgol wedi derbyn y fraint o fod yn Ysgol Masnach Deg y Mis gan Sefydliad Masnach Deg Cymru. Mae'r wobwr yn glod am drefnu'r Diwrnod Hwyl Masnach Deg ym mis Mawrth. Da iawn chi! Ewch i'r wefan i weld mwy: <http://fairtradewales.com/cymraeg-ysgol-bro-pedr>

Hyfforddiant Pwyllgor Eco gan y Sir: Bu cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Eco a'r Cyngor Ysgol mewn diwrnod hyfforddiant gan y Sir ym Mhenmorfa,

Aberaeron yn ddiweddar. Roeddent wedi dysgu llawer am ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fydeang. Roedd yn gyfle i rannu arfer dda gydag ysgolion eraill y sir. Gwnaethant gyflwyniad llwyddiannus er mwyn dangos gwaith y Pwyllgor Eco ym Mro Pedr. Da iawn chi!

Gweithdy Lleihau Gwastraff ac Ailgylchu: Bu Mererid Jones, Cynorthwydd Lleihau Gwastraff y sir yn siarad ag aelodau'r Pwyllgor Eco am ffyrdd i leihau gwastraff yn yr ysgol ac yn y cartref. Roedd yn weithdy diddorol tu hwnt a gwnaethant ddysgu llawer am y broses ailgylchu.

Ysgol St James, Mokhotlong, Lesotho – Ein hysgol bartner: Bydd dau athro o ysgol St James yn ymweld â'r ysgol am wythnos ym mis Gorffennaf. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr i'w croesawu ac i gyd weithio ar broiect cyffrous—adeiladu gardd twll-clo. Gardd Affricanaidd yw gardd twll-clo sydd fel siap twll-clo. Ceir 'basged' yng nghanol yr ardd er mwyn compostio a dwrhau. Mae'n ffordd gynaliadwy o arddio yn enwedig yn Lesotho oherwydd ei hinsawdd—nid yw dŵr yn cael ei wastraffu. Mae disgyblion Bro Pedr yn mynd i geisio adeiladu un tebyg yma yng Nghymru!

Bore Coffi: Ar ddiwedd mis Mawrth cynhaliwyd bore coffi yn ffreutur y campws hyn gyda'r elw yn ychwanegu at gronfa 'Music Takes Action'. Llwyddwyd i godi £312 yn ystod y bore. Cyngerdd i godi arian tuag at Ymchwil Cancer ac elusen Tŷ Hafan yw 'Music Takes Action' a fydd yn digwydd ar Orffennaf 6ed 2013. Bydd amrywiaeth o fandiau ac unigolion yn cymryd rhan yn ystod y noson ac mae mynediad am ddim—felly dewch i gefnogi.

Gêm Hoci Elusennol: Cynhaliwyd gêm hoci arbennig iawn cyn gwyliau'r Pasg pan drefnodd y chweched gêm rhwng y merched a'r bechgyn. Llwyddwyd i godi £63 i Ambiwlans Awyr Cymru a'r bechgyn oedd yn dathlu ar y diwedd gyda'r sgôr derfynol yn 1-0 iddyn nhw.

Diolch i bawb am eu hymdrechion! Hanner Marathon Eryri: Ar ddydd Sul, Ebrill 28ain bu Miss Hickling yn rhedeg hanner Marathon Eryri er mwyn codi arian i Ganolfan Y Bont. Bu'n hyfforddi dros y misoedd diwethaf ar gyfer y ras sy'n 13.1 milltir-dyma ei ras gyntaf. Er mai 'Hanner Marathon golygfaol ym Mharc Cenedlaethol prydfferth Eryri' ddefnyddiodd y trefnwyr

i ddisgrifio'r ras, gwyddai Miss Hickling fod y ras yn mynd i fod yn anodd dros ben felly penderfynodd ganolbwyntio canran fawr o'i hyfforddiant yn rhedeg lan rhiw. Er gwaetha'r glaw-rhedeg oedd rhaid ac roedd tua 700 o redwyr eraill yn cymryd rhan yn Llanrwst hefyd. Ar ôl ymgasglu wrth y llinell gychwyn bu munud o dawelwch ar gyfer rhedwyr Marathon Boston cyn i'r corn ganu iddi ddechrau'r ras. Dechreuodd redeg ar gyflymdra weddol ganolig ond cyn hir teimlai bod ganddi ddiffyg anadl ac yna fe welodd yr arwydd ar gyfer diwedd y Filltir 1af! Bu tair milltir o redeg eto cyn gweld y rhedwyr yn dechrau blino wrth gyrraedd y rhiwegr. Mae'r rhiw yn enwog am fod yn sialens ychwanegol yn y ras ac mae unrhyw redwr sy'n cadw i'r un cyflymdra wrth fynd drosti yn ennill medal ychwanegol. Gyda lwc roedd y llwybr yn haws ar ôl cyrraedd copa'r rhiw a bu'r 6 milltir olaf yn bertach iawn wrth iddi redeg trwy Fetws-y-coed ac o amgylch y cronfa-ddŵr cyn dychwelyd i Lanrwst. Llwyddodd Miss Hicklin orffen y ras mewn 2 awr a 55 munud cyn hercio i gasglu ei medal. Casglodd dros £200-ac mae mwy yn noddi o hyd.

Race for Life: Rhedodd Meg Edwards, Sioned Hatcher, Cari Lake, Rhian Milcoy (Bl.13) a Mrs Delor James y 'Race for Life' ar brod Aberystwyth, ddyddSul, Mai 12fed, i godi arian i Ymchwil Cancr. Roedd yno awyrgylch arbennig, er gwaetha'r glaw. Diolch i bawb fu'n eu noddi, mae'r arian yn dod i mewn yn sylweddol, dros £400 hyd yn hyn tuag at achos teilwng iawn.



Gala Nofio: Ar Fawrth y 18fed, bu disgyblion o'r Campws Iau a'r Campws Hŷn yn cymryd rhan yng Ngala Nofio Chwaraeon Anabledd Cymru, Ceredigion, yn Aberystwyth. Roedd yn ddiwrnod gwyh a chafodd pawb lawer o hwyl.

Canolfan y Bont – Ymweld â'r Orsaf Dân yn Llanbed: Bu'r disgyblion yn ymweld â'r Orsaf Dân yn Llanbed yn ddiweddar fel rhan o'r thema cwrs ASDAN 'Pobl sy'n ein helpu ni yn y gymuned'. Treuliodd y disgyblion brynhawn addysgiadol iawn yn yr orsaf a chafwyd hyd yn oed gyfle i ddefnyddio'r bibell ddŵr!



Addysg Gorfforol – Karate: Llongyfarchiadau mawr i Charlie a Harriet Roper ar eu llwyddiannau yn ystod y Pencampwriaethau Cenedlaethol yn yr NiA ym Mirmingham yn ddiweddar. Enillodd Charlie yr 2il wobwr yn y gystadlaeth ymladd i fechgyn 5"5 ac uwch - 12-

15 oed. Enillodd Harriet y wobwr 1af yn y gystadlaeth ymladd i ferched 6"0 i 5"3 - 12-15 oed, ac o ganlyniad hi yw'r Bencampwraig Brydeinig. Mae Charlie a Harriet yn cystadlu dros Gymru mewn amrywiaeth o gystadlaethau ac rydym yn falch iawn o'u llwyddiannau ardderchog. Da iawn chi!

Sgwad Sgwennu: Ar fore Gwener, Mai 10fed, cynhaliwyd gweithdy'r 'Sgwad Sgwennu' i'r canlynol o flwyddyn 8 a 9 yng nghwmni'r Prifardd Ceri Wyn Jones. Bl. 8: Ffion Evans, Briallt Williams, Twm Ebbsworth, Luned Jones, Ellen Jones, Arthur Jones, Elen Lewis, Alpha Jones, George Greenfield. Bl. 9: Jess Davies, Meirion Thomas, Morgan Lewis, Iwan Evans, Ffion Jenkins, Rhian Harries, Rhys Davies.



Fel rhan o weithgareddau'r 'Sgwad Sgwennu' sirol, cafwyd bore buddiol i ymestyn a mireinio doniau creadigol. Cafwyd hwyl a gwelwyd brwdfrydedd wrth ymdrîn â geiriau a chreu syniadau gwreiddiol.

## CLWB CLONC

Os na wnaethoch gytundeb archeb Banc y llynedd dyma gyfle i chwi wneud eleni. Bydd cael archeb Banc yn arbed llawer o waith i gasglu'r arian yn flynyddol. Llenwch y manylion isod a'i anfon yn ôl i:

Mrs Mary Davies, Maesglas, Drefach, Llanybydder, Ceredigion. SA40 9YB.

Wrth gwrs os hoffech barhau i dalu â siec neu arian parod mae croeso i chwi wneud hynny o hyd. Llenwch y rhan gyntaf o'r ffurflen a'i hanfon yn ôl gyda'r arian i'r cyfeiriad uchod.

Byddwn yn falch ei dderbyn mewn unrhyw ffordd, er mwyn parhad CLONC.



ENW: .....

CYFEIRIAD: .....

CÔD POST: ..... RHIF FFÔN: .....



### ARCHEB BANC / STANDING ORDER

I / To [eich banc chwi / to your bank] ..... Banc / Bank

Rhif didoli / Sort Code: .....

Cyfeiriad y Banc / Bank Address: .....

Taler / Please pay Nat West, Llanbedr Pont Steffan 53-61-42

I gyfrif / for the credit of CLWB CLONC Rhif cyfrif: 03451526

Y swm o / the sum of £

I ddechrau ar / commencing 1af o Orffennaf 2013 Ac yn flynyddol wedi hynny ar Orffennaf 1af  
1st July 2013 Thereafter annually on 1st July

nes y derbynwch rybudd pellach gennyf drwy lythyr / until you receive further notice with me in writing.

Enw'r cyfrif i'w ddebydu / Name of account to be debited: .....

Rhif y cyfrif banc / Account no: ..... Llofnod / Signature: .....



Enw: **Carwyn Gregson**  
 Oed: 26  
 Pentref: Cwmann  
 Gwaith: Trydanwr  
 Partner: Lowri Wilson  
 Teulu: Dad; Bryn, Mam; Helena,  
 2 frawd Darren a Lyndon

**Unrhyw hoff atgof plentyndod.**

Chwarae yn nhwrnamaint pêl droed Ian Rush yn Aberystwyth yn cynrychioli Ceredigion - Teifi Stars.

**Hoff raglen deledu yn blentyn.**

Power Rangers.

**Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.**

I fod yn serchog a chwrtais i bawb.

**Taset ti'n gallu mynd nôl mewn amser, beth fyddet ti'n dweud wrth dy hun yn 16 oed?**

I adolygu ar gyfer arholiadau a gwrando mwy yn yr ysgol er mwyn cael gwell cymwysterau.

**Y CD cyntaf a brynast di erioed?**

Eiffel 65 - Blue Da Ba Dee.

**Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?**

Pêl droediwr proffesiynol.

**Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?**

Chwarae criced gyda mam-gu a'm mrodyr yn y gegin a thorri gwydr drws bac - odd dad ddim yn hapus.

**Y peth mwyaf rhamantus a wnaeth rhywun i ti erioed?**

Dal i ddisgwyl am hyn i ddigwydd Lowri!!

**Beth oedd y frawddeg bachu gorau a ddefnyddiaist erioed?**

Nid oedd byth angen brawddeg bachu arna i ;-)

**Y peth gorau am yr ardal hon?**

Pawb yn gyfeillgar ac yn barod i helpu.

**Y peth gwaethaf am yr ardal hon?**

Pawb yn gwybod busnes pawb!!



**achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?**  
 Ffôn, waled a Coco'r ci.

**Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?**  
 Cerdded Coco y ci a seiclo.

**Beth yw'r cyngor gorau gest ti?**  
 Cyngor mam - Rhaid joio byw, ma' bywyd rhy fyr.

**Pa gar wyt ti'n gyrru?**  
 Ford fiesta du o'r enw 'Betty' ar ôl mam-gu Lowri - cyn perchennog y car.

**Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?**  
 Well i fi ddweud Lowri! Ond petai Mila Kunis yn digwydd bod 'na bydde dim ots da fi!

**Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?**  
 Indian

**Beth yw dy ddiod arferol?**  
 Larger Top.

**Pa wefan wyt ti'n ymweld â hi fwyaf aml?**  
 Sky Sports News.

**Oes rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni?**  
 Chwarae'r gitâr.

**Pwy oedd y dylanwad mwyaf arnat ti?**  
 Mam-gu Werna - odd hi'n byw 'da ni, gethon ni lot o sbort a nath hi'n bendant ddylanwadu arna i.

**Pwy sy'n ddylanwad arnat ti nawr?**  
 Lowri!

**Y gwyliau gorau?**  
 Gwyliau'r Gregsons i Lanzarote llynedd a'r daith gyda'r bechgyn i Thailand ac Awstralia.

**Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?**  
 Seland Newydd, De Affrica, America

**Pa dri pheth yr hoffet ti wneud cyn dy fod yn ddeugain?**  
 Naid bynji, rhedeg marathon a dechrau teulu.

**Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?**  
 Yn gwyllo Abertawe yn chwarae yn Stadiwm Liberty ar ddydd Sadwrn yn maeddu un o dimoedd mwyaf cyfoethog y gynghrair e.e. Man City.

**I ba gymeriad enwog wyt ti'n debyg?**  
 Pan yn sgïo yn Chamonix fe wnaeth y bois benderfynu fy mod yn debyg iawn i'r cyflwynydd Keith Lemon! Sei cweit yn siŵr am hyn?! Ac yn ôl Daryl Davies - Chesney sydd ar Coronation St!!

**Pwy yw dy arwyr?**  
 Alex Ferguson am fod yn rheolwr mor dda am gymaint o flynyddoedd - mor hir â fi byw!

**Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?**  
 Cymraeg

**Pa fath o ddeddf hoffet ti weld y Cynulliad yn ei phasio?**  
 Dim gorfod talu trethi a mwy o wyliau i weithwyr.

**Pa fath o berson sy'n mynd o dan**

**dy groen?**  
 Pobl dau wynebog.

**Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?**  
 Prynu tocyn i fynd o gwmpas y byd er mwyn gorffen y daith nes i ddechrau nôl yn 2010 gyda'r bechgyn - odd e fod yn daith blwyddyn ond o ni nôl mewn 5 mis wedi joio gormod!

**Pryd chwydaist ti ddiwethaf?**  
 Ddim yn cofio'n iawn ond siawns dda mai gêm rygbi ola'r tymor odd hi?!

**Ble oedd y lle mwyaf annisgwyl i ti ddihuno ynddo yn y bore?**  
 Mewn bath llawn dŵr ar wyliau gyda'r bechgyn yn Tenerife - wps!

**Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n bersonol?**  
 Prynu tŷ gyda Lowri yng Nghwmman.

**Wyt ti'n difaru rhywbeth?**  
 Dim dal ati i chwarae pêl droed i Abertawe.

**Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n**

## Swdocw

Sut i chwarae - Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boes yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw \_\_\_\_\_  
 Cyfeiriad \_\_\_\_\_  
 \_\_\_\_\_  
 \_\_\_\_\_  
 Codi post \_\_\_\_\_  
 Rhif Ffôn \_\_\_\_\_

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET  
**Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc**  
 I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

		5						
				1		2	6	4
4		2	3					
1			7			9	5	
		5		2		9		3
		9	4			3		6
						1	3	9
5	4	8		3				
						8		

## Atebion Swdocw mis Mai:

Llongyfarchiadau mawr i: Eirlys Davies, Eurfann, Llanybydder. Swdocw Eirlys oedd y cyntaf a dynnwyd o'r het y mis hwn. Diolch hefyd i Eurwyn Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder am gystadlu hefyd. Y ddau ymhlith selogion swdocw Clonc bob mis. Mae'r swdocw yn boblogaidd iawn yn ardal Llanybydder.

8	3	6	7	1	4	9	2	5
1	5	7	2	9	3	4	6	8
4	2	9	6	5	8	3	7	1
3	4	8	5	6	9	2	1	7
6	7	2	4	3	1	5	8	9
5	9	1	8	7	2	6	3	4
7	6	3	9	8	5	1	4	2
2	1	5	3	4	7	8	9	6
9	8	4	1	2	6	7	5	3

# Carnifal Cwmann



Y fflôt buddugol - Arch Ribidires



Llywydd y Carnifal Lis Williams yn coroni'r Frenhines. Amy Wanmer, y morwynion Lexie Blyth a Gwennan Rowcliffe, Jessica Jones Brenhines y Rhosod a'r gweision bach Ryan Chester a Ronnie Evans.


# Eisteddfod Dihewyd



Natalie Plant, Llambled yn gyntaf ar y llefaru 12-15 oed.



Nia Beca Jones, Blaencwrt, Llanwnnen yn ennill Unawd Piano i blant ysgolion ynrradd.



Cymeriad Gorau Bl. 5 a 6 - Llion Herbert, Cwmann - (Fergie time is over).



Cymeriad Gorau Cylch Meithrin - Hanna James Evans, Silian (Bant gyda'r Llewod).



1af ar y llefaru 8-10 oedd Nia Eleri Morgans, Gorsgoch a hefyd cipiodd y cyntaf ar y Cerdd Dant dan 12 oed.



Sara Elan Jones, Cwmann yn 1af ar y llefaru 10-12 oed ac yn ail ar yr unawd 10-12 a'r emyn dan 12 oed.



Cymeriad Gorau Derbyn - Lowri James Evans, Silian (LAS yn dathlu 40 mlynedd).



Cymeriad gorau Bl. 3 a 4 a gorau yn y carnifal - Mali Fflur Jones, Cwmann fel Little Miss Sunshine.



Yn ennill y cyntaf am ganu ac am adrodd dan 6 oed oedd Alwena Mair Owen, Llanllwni ac yn ail am adrodd oedd Cerys Angharad, Llangybi.



Bl.1 a 2 - Marged Hathren Jones, Llambled (Gŵyl Flodau Chelsea).



Pâr Gorau - Chloe and Seren Ling, Cwmann.

# Cwmsychpant

## Priodas Berl

Dathlodd Eifion ac Elenid Jones, Talar Wen ei Priodas Berl yn ystod mis Mai. Llongyfarchiadau mawr i chi a iechyd da i chi i'r dyfodol.

## Pen-blwydd Arbennig

Dathlodd Mrs Olive Davies, Arosfa ben-blwydd arbennig yn ystod canol mis Mai. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r dathlu ar eich gwyliau.

## Diolch

Dymuna Betty Jones, Delfan ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad, boed yn gardiau, blodau, rhoddion ayb a dderbyniodd ar farwolaeth ei chwaer sef Mair Davies o Landdarog yn ddiweddar.

Hefyd, dymuna teulu y diweddar Haydn Evans, Brynllwyd ddiolch i'r perthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu colled.

Hefyd, dymuniad Mrs Olive Davies, Arosfa yw diolch i'w pherthnasau, cymdogion a ffrindiau oll am y cardiau, blodau a rhoddion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed yn ystod mis Mai.

Penillion coffa i gofio am Sam Rees Fronfallen, Cribyn a hunodd Mai 7fed 2012.

## Sam

Mae'r crwt penfelyn  
A'i fesuriadau cywrain.  
Mae'r llefryn ifanc  
A'i gitar yn guriadau'r ardegau.  
Anelu at berffeithrwydd oedd hi bob tro.

Byddai ei sgwrs yn llepian  
nôl a gwrthol fel tonnau'r môr,  
A'r "Hwyl Fawr!" yn ddiweddglo cysur  
Ac yn werth ei chael.

Anodd yw stadiwm y Scarlets bellach.

Ond fe fyddi di yma o hyd  
Tra byddwn ni,  
A'r coch a'r gwyn yn cyhwfan am ein gyddfau.

A'r nos yn hebrwng y dydd  
Wele dau hen rocar  
Yn strymio mas y gorffennol'  
Ac awel o alaw yn nithio'r sgwrs.

A hithau yn naw nos olau  
Tremiaf draw tua'r dwyrain.  
Mae yno un seren fechan  
Sy'n fwy disglair na'r gweddill.  
Dychmygaf mai ti sydd yno  
A'th enaid yn goreuro y ffurfafen.

"Anfonaf Angel i'th gysuro heno  
Anfonaf Angel i'th gysuro di."

Ann Davies (chwaer Sam) *Coffa da amdano.*

# Cweithgarwch yn y fro



Maer newydd Llanbedr Cyngwr, Dorothy Williams a'i chonsort Eirwyn Williams yn dilyn y Seremoni. Dyma'r pumed tro i'r Cyngwr Williams fod yn faer y dref. Bu'n faer am y tro cyntaf yn 1987-88, yna 1993-94; 1998-99; 2006-07 a nawr 2013-14.



Disgyblion blwyddyn 3 a 4 Ysgol y Dderi yn mwynhau cyfnod yn Llangrannog.



Llun o ddisgyblion Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan a ddechreuodd eu haddysg Uwchradd yn mis Medi 1959 yn mwynhau eu haduniad a gynhaliwyd yn ddiweddar ym Mhrifysgol Y Drindod Dewi Sant Llanbedr Pont Steffan.

## YSWIRIANT FUW

Yswiriant Fferm,  
Busnesau, Ceir a Thai



Arbenigedd lleol  
Polisïau at bopeth  
Prisiau cystadleuol

Dewch i drafod eich anghenion gyda

Alan Jacob 07968 371823 / 01570 481361

neu

Gwion James 07980 608337 / 01570 480623

Yn swyddfa Yswiriant FUW,  
Sgwar y Mart, Llanbydder

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awduroddi a'i reoli gan  
Awdurdod y Gwasanaethau Arianol yng ngyrfa-ddeddfu cyfngyngol yswiriant,  
o dan Rhif Cofrestru, 305038.

## PLANHIGFA GRANNELL NURSERY

Capel y Groes,  
Llanwnnen  
SA48 7LE

01570 434548

www.grannell-nursery.co.uk

Planhigion llysiau, lluosfwydd,  
blodau'r haf a'r gaeaf, perlysiâu,  
coed ffrwythau a mwyl!

Dydd Mawrth i Ddydd Sadwrn  
10yb ~ 5yp

Dydd Sul 10yb ~ 4yp

Ar gau Dydd Llun heblaw Gŵyl y Banc

## COMPASS OFFICE SUPPLIES

Am eich holl  
ddeunydd swyddfa




Uned 12 Stâd Ddiwydiannol  
Llambod, Heol Tregaron,  
Llambod.

01570 422955

01570 422232

## Cludfwyd Indiaidd NEHAR



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

15% o ostyngiad  
ar archebion dros £10.00.

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o  
weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambod  
01570 422893 / 422175

## CANOLFAN ADDURNO

### AA

### A

Dewis arbennig o bapur, paent ac  
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patruan, Offer llaw a  
phwercus, Polion a thraciau llecni,  
gwasanaeth terri allweddli a  
pheiniannau cynysgu paent  
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.

3 Stryd y Bont

Llanbedr Pont Steffan

01570 423156

# Canolfan Cristnogol Llanbed

## YR HEDYN MWSTARD

Agorodd Yr Hedyn Mwstard ei  
ddrysau ym Mai, 2003 – y Dydd  
Llun olaf, a dweud y gwir, sef Gŵyl  
Banc y Gwanwyn. Nid dyma'r

agoriad  
swyddogol,  
gyda llaw,  
oherwydd  
roedd hwnnw  
wedi digwydd  
ychydig  
ddiwrnodau  
cyn hynny,  
yn dilyn  
gwasanaeth  
cyhoeddus o  
fawl a diolch  
i Dduw

yn Neuadd Fictoria, Llambod.  
Ar ddiwedd yr oedfa gwnaeth y  
gynulleidfa niferus – llawer ohonynt  
wedi rhoi cefnogaeth i'r fenter  
mewn modd gweddigar ac ymarferol  
– gerdded yr ychydig bellter i'r  
Hedyn Mwstard ac agorwyd y lle'n  
ffurfiol gan Faer y Dref y flwyddyn  
honno, sef y Cyngh. Hag Harris.  
Anodd credu bod cymaint o amser  
wedi mynd heibio!

Mae'r enw a roddwyd ar ein Siop  
Goffi yn deillio o un o ddamhegion  
Iesu Grist, fel y'i cofnodir yn y  
Testament Newydd, megis ym  
Marc 4:30-32. Hwyrach bod nifer  
ohonoch yn gwybod am y ddameg.  
Yr hedyn mwstard yw'r lleiaf o holl  
had y perlysiâu, ac eto mae'n tyfu'n  
blanhigyn sydd yn fwy na'r holl  
blanhigion perlysiâu, mor fawr fel  
ei fod hyd yn oed yn medru cael ei  
alw'n goeden. Mae'r goeden hon yn  
ddigon mawr i ganiatáu i adar nythu  
yn ei changhennau. Yn y modd hwn  
mae Crist yn darlunio'r wyrth o  
berson yn dod i ffydd ynddo Ef ac  
yn cael ei drawsnewid yn y broses,  
yr hedyn a gafodd ei blannu ynddo  
ef neu hi'n cynyddu'n anorfod. Mae  
hefyd yn darlunio twf rhyfeddol yr  
eglwys Gristnogol o'i dechreuadau  
ymhlith grŵp bychan o bobl i fod  
yn un sydd wedi lledaenu ar draws  
y byd, gan drawsnewid bywydau a  
mynd â'r neges am y "Newyddion  
Da" i bob cenedl, gan ein cynnwys  
ni'r Cymry.

## Beth oedd y nod a'r amcan? Dyma ni:

Hyrwyddo'r Ffydd Gristnogol;  
ar wahân i'r gwasanaeth arferol a  
gynigir mewn Siop Goffi, gwelsom  
y gallem wneud  
hynny hefyd  
drwy ddarparu  
llynyddiaeth  
Gristnogol mewn  
amryw gyfryngau  
– llyfrau, ffilm,  
DVD, posteri,  
gemwaith a  
phethau tebyg.

Hybu unrhyw  
bwrpas elusenol  
arall er lles a  
budd y gymuned  
yn y rhannau hyn o Gymru drwy  
hyrwyddo addysg, diogelu iechyd  
a rhyddhau oddi wrth dlodi ac  
afiechyd, fel mynegiant o'r Ffydd  
Gristnogol. Mae hyn yn ymwneud  
unwaith eto â llyfrau, rhannu  
gwybodaeth a hyfforddi yn y ffydd,  
ond hefyd cwnsela a chyfrannu at  
achosion da o bob math.

Y weledigaeth wreiddiol oedd  
cyrraedd allan i'r gymuned, at y bobl  
hynny sydd i bob golwg yn byw eu  
bywydau heb Dduw a Christ, a dod  
â nhw i'r man lle y gallant weld eu  
bod yn real; yn hyn i gyd y bwriad  
oedd dangos gofal a chonsym  
drostynt.

Balch gennym ddweud hefyd  
ein bod dros y 10 mlynedd wedi  
cael sylw ar sawl rhaglen radio, yn  
ogystal â rhaglenni teledu o bryd  
i'w gilydd hefyd, gan gynnwys  
bod yn gaffi ar gyfer ffilm S4C  
oedd yn seiliedig ar nofel Caryl  
Lewis, "Martha, Jac a Sianco".  
Ceisiwn chwarae ran lawn yng  
ngweithgareddau tref Llambod a'r  
ardal.

Diolchwn i chi, bobl ein cymuned,  
am eich cefnogaeth barod dros y  
degawd. Diolchwn am y modd y  
cawsom ein cynnal ar hyd yr amser.  
Ein dyhead yw y byddwn yn dal i allu  
bod yn fan cyfarfod a lle i ymlacio  
i bobl o bell ac agos, gan ddarparu  
nid yn unig at eu rheidiau corfforol  
ond, yn bwysicach na hynny, at eu  
hanghenion dyfnaf, ysbrydol.



# Pentrebach

## Priodas



Llongyfarchiadau i Sian Davies a  
Gethin Young ar achlysur eu priodas  
yn eglwys San Pedr, Llambod Pont  
Steffan ar y 6ed o Ebrill 2013.  
Treuliyd y mis mêl yng Nghanada  
ac yn Hawaii. Maent wedi ymgatrefu  
yn y Rhath, Caerdydd ers sawl  
blwyddyn.

## Gwellhad buan

Gobeithio erbyn hyn fod Eric  
Jones, Pant-têg adref yn gwella ar  
ôl derbyn llaw-driniaeth yn Ysbyty  
Tywyog Phillip, Llanelli yn ystod  
diwrnodau diwethaf mis Mai.

# Cellan

## Sefydliad y Merched

Bu aelodau W.I. Cellan yn dathlu  
40 mlynedd ers ei sefydlu mewn  
cinio fawreddog yn Y Polyn,  
Llanarthne. Cafwyd noson hwylus  
yng nghwmni Ann Jones Llywydd  
y Sir.

## Diolch

Dymuna Delyth, Meinir a Meleri  
Ffosyffin ddiolch i bawb am eu  
haelioni yn y bore coffi ar y 23 ain o  
Fawrth. Codwyd £2,505 i Gronfa'r  
Eve Appeal er cof am Dinnie Rees,  
Ffosyffin. Cafwyd bore hwylus a'r  
Pantri dan ei sang yng nghwmni  
Llywydd y bore, Margaret Jones,  
Glanhelen, chwaer Dinnie.

## Cymorth Cristnogol

Diolch i'r unigolion brwd a fu'n  
crynhoi arian i Gymorth Cristnogol o  
amgylch y pentref. Rydym yn ffodus  
i gael gwirfoddolwyr brwd.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â theulu  
Mali Stubbersfield yn dilyn ei  
marwolaeth yn ddiweddar.

Sicrhewch eich newyddion yn y  
papur hwn. Peidiwch â disgwyl  
i rywun arall ei gynnwys ar eich  
rhan. Mae'n rhy hwyr i achwyn  
ar ôl i CLONC ymddangos.

# Alltyblaca

## Yn yr ysbyty

Danfornwn ein cofion at Mrs Megan Jones, Llwynfedw sydd ar hyn o bryd  
yn Ysbyty Glangwili – gobeithio y byddwch yn temlo'n well yn fuan.

## Cydnabyddiaeth

Dymuna Dilwen George, Awelfryn a Margaret ddiolch yn fawr i bawb  
am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt dros yr wythnosau  
diwethaf, wrth iddynt orfod wynebu profedigaeth lem arall o golli Logan  
bach yn 4 mis oed, gor-or-wyr i Dilwen a gor-wyr i Margaret. Diolch hefyd  
am y cyfraniadau ariannol i'r 'Lullaby Trust'. Diolch yn fawr i bawb.

# O'r Cynghorau Bro



## Cyngor Bro Llanllwni

Cadeirydd: Tom Bowen, Is-gadeirydd: Eric Davies, Clerc: Eirlys Davies, Gohebydd y Wasg: Dewi Davies, Cynghorydd Sir: Linda Evans. Cyfarfu'r Cyngor ar 11 Mawrth 2013.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Estynwyd cydymdeimlad â theulu y diweddar Emrys Evans. Yr oedd wedi bod yn aelod ffyddlon o'r Cyngor Bro am lawer o flynyddoedd hyd at ei ymddeoliad yn 2012. Diolchwyd yn fawr gan ei gyd aelodau am y gwaith a wnaeth o fewn y plwyf yn ystod ei fywyd.

Estynwyd cydymdeimlad yr aelodau i Eurig Thomas ar farwolaeth ei chwaer yng nghyfraith yn ddiweddar. Cadarnhawyd bod Tom Jones ac Eric Davies wedi archwilio'r maes chwarae â'r adnoddau yn ystod yr wythnosau diwethaf. Yr oedd y gwaith o lanhau'r matiau wedi ei gwblhau gan Lyn Jones ar 6 Mawrth 2013. Yr oedd Lyn Jones wedi cael dŵr i lanhau'r matiau gan breswylwyr 30 Bryndulais. Penderfynwyd yn unfrydol anfon llythyr o ddiolch.

Ni fu datblygiad pellach ynglŷn â phrynu y copi diweddaraf o gofrestr Mynydd Llanllwni. Yr oedd y Clerc wedi derbyn ebost yn cadarnhau y byddai'r copi yn cyrraedd y Clerc erbyn dechrau Mis Ionawr. Penderfynwyd gan y Cynghorwyr bod angen cysylltu â Andrew Paterson eto. Yr oedd copïau o CL3 â CL4, gan Linda Evans yn y cyfarfod ac yr oedd CL12 i ddilyn eto. Penderfynwyd gan yr aelodau y byddai y Clerc yn cadw'r copïau ac y byddai croeso i'r aelodau eu benthyg.

Penderfynwyd gan yr aelodau y byddai'r cinio yn cael ei gynnal ar nos Wener ym Mis Ebrill.

Penderfynwyd yn unfrydol i wrthwynebu'r cais am ddadgofrestru'n rhannol diroedd comin Mynydd Llanllwni. Byddai'n cael effaith negyddol sylweddol ar ardal o harddwch naturiol arbennig a llynyddwch digyffelyb.

Penderfynwyd gan yr aelodau y byddai'r Cyngor Bro yn rhoi gwobr o £150.00 yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Gâr 2014.

Penderfynwyd casglu sbwriel o amgylch y plwyf ar 18 Ebrill 2013 a chwrdd am 7 o'r gloch ger y Belle Vue.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, 13 Mai 2013 am 8yh.

## Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan

Y Maer: Kistiah Ramaya, Clerc: Eleri Thomas, Cynghorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris, Cynghorydd Sir: Ivor Williams. Cyfarfu'r Cyngor ar 28 Mawrth 2013 yn Neuadd yr Eglwys, Llanbedr Pont Steffan.

Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y Maer. Offrymwyd gweddi gan Dorothy Williams.

Mewn cyflwyniad gan yr Athro Medwin Hughes Is Ganghellor Prifysgol Y Drindod Dewi Sant pwysleisiodd bod dyfodol y Coleg yn Llambled yn hollol ddiogel. Roedd colli swyddi ar gampws Llambled a hynny ganol y tymor academiaidd a diffyg ymgynghori yn peri gofid i'r Cynghorwyr. Roedd y myfyrwyr hefyd wedi gwrthdystio yn sgil y newidiadau.

Roedd y fformiwla ariannu newydd wedi gorfodi'r Brifysgol i dorri swyddi mewn rhai adrannau gan fod nifer y myfyrwyr wedi gostwng. Cyfaddefodd Dr Hughes bod penderfyniadau anodd wedi'u gwneud ond mynnodd bod y Brifysgol, bellach, mewn sefyllfa well. Nododd bod cynnydd o 25% mewn ceisiadau gan fyfyrwyr wedi digwydd yn y blynyddoedd diwethaf. "Yr hyn sydd gennym yn Llambled yw Prifysgol sy'n tyfu ac yn datblygu. Mae Llambled yn dref prifysgol sy'n rhan o uned gref iawn. tref brifysgol fydd Llambled tua'r dyfodol. Bu buddsoddi sylweddol yn y Brifysgol ac yma yn Llambled. Buddsoddwyd miliynau o bunnoedd yn yr adeiladau. Fyddai hynny ddim wedi digwydd petai'r Brifysgol mewn perygl."

Unwyd Prifysgol Llanbedr Pont Steffan â Choleg y Drindod, Caerfyrddin yn 2010 a chreu Prifysgol y Drindod Dewi Sant. Bydd yn uno, yn ogystal, â Phrifysgol Metropolitam Abertawe, Coleg Ceredigion a Choleg Sir Gâr ac mae ganddi ganolfan rhyngwladol yn Llundain.

Atebodd yr Athro Hughes gwestiynau o'r llawr a phwysleisio unwaith eto fod Llambled wrth graidd y Drindod Dewi Sant a bydd yn aros felly. Bydd y Brifysgol hon yn un o'r prifysgolion cryfaf yng Nghymru.

Diolchodd y Maer i'r Athro Hughes am ei anerchiad. Diolchodd, yn ogystal, i Catrin Thomas ac i Gwyndaf Tobias. Nodwyd bod camu wedi'u cymryd i sefydlu amgueddfa newydd i Llambled. Penderfynwyd cefnogi'r fenter.

Cyflwynwyd cynlluniau ar gyfer cegin newydd gan Trawsnewid Llambled.

Nodwyd bod y Gynhadledd ar Gerddoriaeth Crefydd wedi bod yn llwyddiannus.

Parcio ar y Cwmins. Penderfynwyd gwneud ymholiadau pellach.

# O'r Cynulliad gan Elin Jones



Rwy' wastad wedi credu ei fod yn bwysig i'r Cynulliad – ac i wleidyddion yn gyffredinol – gynnig gymaint o ffyrdd â phosib i aelodau o'r cyhoedd i gysylltu gyda nhw. Dyna pam rwy'n cyhoeddi bwletin newyddion dros ebost (cysylltwch ag Elin@Elinjones.com os y'ch chi am wybod mwy), ac hefyd un o'r ffyrdd mwyaf arloesol sydd gan y Cynulliad nawr yw'r Pwyllgor Deisebau. Sefydlwyd hwn yn 2011; gellir casglu deiseb ar unrhyw bwnc sy'n dod o dan gyfrifoldeb y Cynulliad, a dim ond 10 llofnod sydd ei angen er mwyn i'r ddeiseb gael ystyriaeth. Mae'r gyfundrefn erbyn hyn yn cael ei efelychu mewn seneddau eraill ar draws Ewrop.

Os edrychwch ar wefan y Cynulliad, mi welwch fod deisebau ar ystod eang o bynciau, o addysg i blant byddar i'r diwydiant llaeth. Mae modd hefyd cyflwyno deisebau ar bynciau lleol, ac yn ddiweddar bu'r Pwyllgor yn clywed gan grŵp sydd am wella safon tai myfyrwyr Aberystwyth a phobl sy'n poeni am ddiogelwch ffyrdd ym Mlaenporth. Yn fuan byddant yn trafod achos siopwyr yn ne Ceredigion sy'n pryderu am drethi busnes. Gall fod yn ffordd dda o godi ymwybyddiaeth y Llywodraeth o bwnc, ac mae rhai deisebau wedi bod yn llwyddiannus wrth newid polisi. Felly os oes rhywbeth yn eich poeni yn eich cymuned leol, mae croeso i chi gysylltu gyda mi am gyngor ar sut i godi pwnc yn y modd yma.

Rwy' hefyd yn ceisio cynnal gymaint o gymorthfeydd â phosib. Rwy'n eu cynnal yn rheolaidd yn y prif ganolfannau fel Aberteifi, Aberaeron, Aberystwyth, Llambled, Llandysul a Thregeron, ond hefyd rwy'n ymweld â llefydd eraill. Mis yma, rwy' wedi bod ym Mhontrhydfendigaid, ac ym Mydroilyn, lle bues i a'r cynghorydd lleol yn gwrando ar bryderon pobl am draffig a materion eraill. Os y'ch chi am i fi alw yn eich cymuned chi, ebostiwch Elin@Elinjones.com.

Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad,  
Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion, Oriol a  
Gwasanaeth fframio lluniau ayb

# Sianti

Uned 2 Monumental Works,  
Stryd y Fro, Aberaeron  
gyferbyn a Banc y Natwest

01545 571510

www.sianti.org



Heol Caerfyrddin  
Llanybydder  
Sir Gaerfyrddin

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

## Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,  
Heol Pontfaen, Llambled  
Ffon: 423300 Ffacs: 423223  
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth  
cyfreithiol  
Apwyntiadau hwyr neu yn eich  
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant  
**Eryl Jones Cyf**

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris  
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,  
beic modur

Yswiriant tŷ/  
cynnwys

Teithio

Fferm a busnes

Cyfrifoldeb

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,  
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr  
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

# FISHERS

## ARMS



Bywd cartref ardderchog nos iau, Gwener a Sadwrn,  
Prydiau mewn basged ar gael bob nos.

Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig  
gan Berian a Beverley Wilkins a'u merched.

**Cellan, Llambled**

01570 422895



# Llanwnnen

## Cydymdeimlo

Danfônwn ein cydymdeimlad llwyrfa a dwysaf â Mrs Magw Hughes, Pantydderwen a theulu Cwmhendryd ar farwolaeth perthynas agos ym mherson Mrs Olwen Hughes, Cwmere, Felinfach.

## Capel y Groes

Ar ddydd Sul y Sulgwyn am 3.00 y prynhawn cynhaliwyd Gwasanaeth Cymun yn y capel. Thema'r gwasanaeth oedd cryfhau y profiad ysbrydol mewn bywyd. Cyhoeddwyd yr emynau gan Ann Davies, Mair Davies, Haydn Lewis a Mair Potter. Wrth fwrdd y cymun cydymdeimlwyd â Magw Hughes ym marwolaeth perthynas agos sef Olwen Hughes o Temple Bar yn ystod yr wythnosau diwethaf. Hefyd yn niwedd mis Ebrill bu David Griffiths o Lundain yn claddu llwch ei ddiweddar fam sef Marian Griffiths a'i ddiweddar fam-gu Eirwen Jones a chydymdeimlwyd ag ef. Dosbarthwyd y cymun gan Dilwyn Thomas a fe hefyd a wnaeth y casgliad. Gwnaed y cyhoeddiadau gan Haydn Richards. Tynnwyd sylw'r mynychwyr at y Noson Joio sydd i'w gynnal yng Nghwesty'r Grannell ar nos Wener 7 Mehefin gyda Dafydd Hywel, Sue Roderick a Dewi Pws. Bydd rhan o'r elw yn mynd at Gronfa Eisteddfod Capel y Groes yn ogystal ag Ysgol Gymunedol Llanwnnen. Dymunwyd yn dda i Avarina Lewis a Megan Jones gan fod y ddwy wedi derbyn triniaeth ysbwy yn ddiweddar. Yr organyddes oedd Manon Richards.

## Sefydliad y Merched

Yn Mis Mai aethom am wybdaith i ardal Ciliau Aeron. Yn gyntaf i ymweld â Rhianon Roberts yn Cilmeri i weld arddangosfa o waith Rhianon sef Lluniau, printiau, cardiau o bob math, matiau bwrdd, crochenwaith ac ati, oll wedi eu paentio gan Rhianon o ardaloedd lleol. Pleser o'r mwyaf oedd gweld gwaith o safon mor uchel.

Yna ymlaen i Westy Tyglyn Aeron am gwpanaed o de neu goffi a sconen a jam a hufen- lle moethus, hyfryd.

Yna ymlaen i 'Erddi Organic Blaencamel, lle roedd y Tai Gwydr yn llawn llysiau a ffrwythau, a'r gweithwyr yn brysur yn chwynnu a thrin y planhigion. Agoriad llygad, yna siopa yn y siop organic oedd ar y safle. I ddiweddu y noson cawsom swper blasus wedi ei weini yn ddelfrydol yng Ngwesty'r Plu yn Aberaeron, canmoliaeth mawr iddynt.

Cawsom gyfarfod byr i drafod materion arferol, ac enillydd y gystadlaeath am y freichled bertaf oedd Irene Jackson, 2il Alice Davies a 3ydd Ceinwen Roach. Diolchodd ein llywydd Mrs Avril Jones i Mrs

Mary Davies a Mrs Ceinwen Roach am drefnu noson mor fendigedig.

## Gwellhad Buan

Bu Mrs Mary Richards, Lowtre yn cael llawdriniaeth yn ddiweddar yn Ysbyty Glangwili – gobeithio eich bod ar wellhad erbyn hyn.

## Penblwydd

Dathlodd Gethin Jones, Blaenhedd, Blaencwrt, ei benblwydd yn 50 oed ar ddiwedd mis Mai. Gobeithio i ti gael dathliad i'w gofio!

## Diolch

Dymuna Gethin, Blaenhedd, ddiolch yn ddiffuant i bawb am y cardiau, yr anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar ei benblwydd yn ddiweddar.

## Ysgol Llanwnnen

Ymunodd nifer o rieni, disgyblion a ffrindiau'r ysgol ar daith gerdded noddedig ar noson hyfryd o wanwyn. Cerddwyd o amgylch Neuadd gan stopio am ddiod a chlonc. Casglwyd swm dda o arian ar gyfer y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Diolch i bawb am gefnogi.

Yn ystod y mis diwethaf mae disgyblion Blwyddyn 6 wedi bod yn Pontio yn Ysgol Bro Pedr ar bedwar achlysur. Cafwyd cyfle i ddod i adnabod yr Ysgol a chyfarwyddo gyda phatrwm gwersi. Creuwyd daliwr pensiliau gan bob un disgybl ac roedd hi'n amlwg i bawb fwynhau.

Bu aelodau'r Cyfnod Sylfaen yn ymweld ag Aberaeron ar driph addysgiadol lle roeddent yn cymharu ardal glan môr ac ardal wledig. Ar eu ffordd draw cafwyd cyfle i alw ym Maesmynach i weld y syclod a chael cyfle i eistedd ar gefn ceffyl. Diolch i Mrs Nicola Davies a'r teulu am y cyfle.

Ar nos Wener 7fed o Fehefin mi fydd Noson o adloniant yn cael ei chynnal yng Ngwesty'r Grannell gyda Dafydd Hywel, Sue Rodrick a Dewi 'Pws' Morris. Pris y tocynnau yw £6 ac mae'r tocynnau ar gael o'r Ysgol neu o Westy'r Grannell. Bydd elw'r noson yn cael ei rhannu rhwng yr Ysgol a Chapel y Groes.

Bu nifer o ddisgyblion yn cystadlu yng Nghystadlaeath Traws Gwlad Rhanbarth Ceredigion yn Aberaeron. Llongyfarchiadau i bawb a fu'n rhedeg.

## Canlyniadau Gwaith Cartref Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd

Cyfansoddi Cerddoriaeth Oedran Blynnyddoedd 10 a dan 19 oed – 3ydd Lowri Elen Jones, Aelwyd Llanbedr Pont Steffan. Cyfansoddi Cerddoriaeth Oedran Blynnyddoedd 10 a dan 19 oed – 2il Meleri Davies, Ysgol Bro Pedr - Adran Hŷn; 3ydd Gwawr Hatcher, Ysgol Bro Pedr - Adran Hŷn. Rhyddiaith Oedran Blynnyddoedd 12 a dan 19 oed – 3ydd Aron Dafydd, Aelwyd Llanbedr Pont Steffan. Rhyddiaith Oedran Blwyddyn 4 ac iau – 2il Austin Thomas, Ysgol Bro Pedr; 3ydd Daniel Legg, Ysgol Bro Pedr.

# Llanfair Clydogau



Cangen Llanfair Clydogau gipiodd y Cwpan Cynnyrch am ennill y marciau mwyaf yn Rali Wanwyn Sefydliad y Merched – o'r chwith mae Eleanor Evans, Katie James, Elaine Coombes, Yolanta Wilson ac Iris Quan gyda pheth o'u cynnyrch.

## Cyngor Cymned Llanfair a Cellan

Cafwyd noson hwylus dros ben gyda bwyd bendigedig a chwmni da pan aethom i gael ein cinio blynyddol i Sgubo'r Teile ym Mwllch Llan. Dim ond un anhawster oedd, methu dod o hyd i'r lle gyda dau o'r ceir yn mynd ar goll ar y ffordd yno a'r bws yn mynd ar goll ar y ffordd adre. Serch hynny cawsom noson bleserus iawn mewn lle hyfryd.

## Côr Cwmann ar ei orau

Ar noson braf o Haf daeth Côr Cwmann i gynnal cyngerdd yn Eglwys Santes Fair, a phleser mawr oedd gweld yr eglwys bron yn orlawn. Y gyfarwyddwraig cerdd oedd Elonwy Davies gyda Elonwy Pugh yn cyfeilio. Arweinydd y noson oedd Cyril Davies, cadeirydd y côr. Artistiaid y noson oedd y bariton Kees Huysmans a'r tenor Deiniol Williams, Deiniol yn canu am y tro cyntaf ar ôl ail ymuno â'r cor a phleser oedd gwrandao ar y ddau. Llywydd y noson oedd y Bnr. John Metcalf, Tŷ Yfory, ac fe'i gyflwynwyd i'r gynulleidfa gan Alan Leech, gyda geiriau diddorol a phwrpasol.

Cyfeiriodd John yn ei araith at Heol Llanfair a'i chymeriadau yn enwedig y diweddar Malcolm Jeffreys a oedd wedi codi arian sylweddol i helpu eglwys yr ardal ac adeiladau hanesyddol. Diolch i John am ei rodd hael at yr achos a chyflwynwyd anrheg iddo a blodau i Dolly, ei bartner. Pleser oedd dod allan o'r eglwys a chlywed pawb yn siarad am ganu arbennig y côr a'i mwynhad o'r cyngerdd, gyda llawer wedi clywed côr meibion am y tro cyntaf. Ymysg y gynulleidfa roedd grŵp o ymwelwyr o wlad Sweden oedd yn aros yn yr ardal. I gloi achlysur delfrydol cafwyd lluniaeth o safon i bawb yn y neuadd. Diolch i'r gwragedd a fu mor brysur a charedig yn ei baratoi. Diolch hefyd i bawb a gymerodd unrhyw ran yn y cyngerdd a'r paratodau.



## Sêr y Dyfodol

Mae Brynmor Thomas, Awelon wedi bod yn chwarae pêl-droed i CPD Felinfach drwy'r tymor, ac ef oedd y goli i'r tîm dan 10 oed, Dreigiau Felinfach, yn yr Wyl Bêl-droed. Roedd pedwar tîm ar ddeg o dan ddeg yn chwarae, a goli y dydd yn yr adran hyn oedd Brynmor. Llongyfarchiadau i ti. Mae Daniel Nantymedd hefyd wedi ymuno â'r tîm ac wedi chwarae yn dda iawn, a sgorio ei gôl gyntaf yng nghrys Felinfach. Da iawn eich dau a phob lwc y tymor nesaf.

## CWM AUR Llanybydder

**Cynhelir Diwrnod Agored ddydd Sadwrn, Mehefin 15fed am 1.00y.p.**

Agorir gan Cyngor Ieuan Davies. Rhostio Mochyn, ac Adloniant gan Gôr Corisma, Adloniant i Blant a Bws Mobi, Mefus a Hufen, Stondin Poteli, Raffl a Te Prynawn.

Bydd rhodd ariannol yn mynd at Sefydliad y Galon. Dewch yn llu i ymweld â'r Cartref.

# Llanbedr Pont Steffan

## Gyrfa Chwist

Ar 8fed o Fai cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain.

Enillwyr fel a ganlyn: Dynion - 1af Peter Jones, Llambled. 2il - Ray Jenkins, Llanybydder. 3ydd - Gwendoline Jones, Llanybydder. Merched - 1af Gwendoline Davies, Llanwnnen. 2il - Margaret Jones, Pentrebach, Llambled. 3ydd - Mary Jones, Stryd y Bont, Llambled. Carden Miniature - Dynion Edward Lockyer, Hafan Deg. Merched - Lil Thomas, Ffostrasol. Bwrw Allan - Enillwyr - Peter Jones, Llambled a Lil Thomas, Ffostrasol. Ail - Margaret Jones, Pentrebach a Iorwerth Evans, Llangybi.

Cynhaliwyd noson arall o Chwist ar 8fed o Fai yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain.

Enillwyr fel a ganlyn: Dynion - Cydradd 1af Mary Jones, Llambled a Ray Jenkins, Llanybydder. 2il - Ifan J Jones, Bro Henllys, Felinfach. Merched - 1af Beryl Roach, Bro Henllys, Felinfach. 2il - Cathrina Davies, Aberaeron. 3ydd - Sarah Humphreys-Jones, Alityblaca. Carden Miniature - Dynion - Mai Williams, Tregaron. Merched - Ceri Lloyd, Ffostrasol. Bwrw Allan - Enillwyr - Peggi Davies, Bro Henllys, Felinfach a Cathrina Davies, Aberaeron. Ail - Mai Williams, Tregaron a Nanna Davies, Stryd Newydd, Llambled.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Emyr a Gareth Richards, Goedwig, Heol Llanwnnen ar farwolaeth Gerwyn Richards o Gaerfyrddin ei dad a thadcu annwyl. Derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf.

## Adran yr Urdd Llambled

Cafwyd helfa drysor yn yr Adran i gloi'r tymor a diolch i Mr Rees am drefnu. Diolch hefyd i Anthea a Dorothy am baratoi'r bwyd. Os oes diddordeb gan unrhyw rieni i ddod i gynorthwyo yn yr adran neu i gynnal noson yn yr adran yna cysylltwch â Llinos neu Anthea. Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed cymysg yr adran ar gyrraedd y rownd Genedlaethol a chwarae'n arbennig o dda - ennill un gêm o naw gôl i ddim, colli un ac un gêm gyfartal. Daliwch ati a diolch i Mr John am hyfforddi.

## Trefeillio

Mae Llanbedr yn dathlu deg blynedd o drefeillio gyda Germain sur Moine yn Ffrainc eleni ac yn trefnu taith yno ar y 27ain Awst am bum dydd. Taith ar fws, hwylio ac aros gyda theuluoedd am £99 y person. Os oes diddordeb gennych, cysylltwch â Carol Ramaya 422766.

## Brondeifi

Ar brynhawn Sul heulog y 19eg o Fai daeth tyrfa dda o tua 60 ynghyd i wasanaeth teuluoedd Glanhelen a Ffosyffin ac i gymryd rhan yn y daith gerdded a drefnwyd ganddynt i godi arian ychwanegol at gronfa Apêl Elain. Rhedodd Mam Elain, Bridget James, 13 hanner marathon, sef 13 milltir 13 gwaith dros gyfnod y Pasg a phenderfyniad Gweinidog, swyddogion ac aelodau'r capel oedd cefnogi'r gronfa ymhellach. Taith fer hamddenol oedd hon i safle Coleg y Drindod Dewi Sant gyda Gareth James ac Elain yn arwain. Cafwyd cyfle i ymweld â chapel y coleg cyn troedio nôl i Brondeifi am de blasus iawn a oedd wedi ei baratoi gan y ddau deulu. Gan gynnwys cyfraniad o £25 o goffrau'r capel mae'r cyfanswm hyd yma yn £470.00 gyda'r gronfa yn dal ar agor am ychydig wythnosau eto i unrhyw un sydd am gyfrannu, drwy law Meinir Evans, Wernllwyn, 15 Heol yr Orsaf, Llambled. Cydganwyd emyn ar lawnt y coleg ac offrymwyd gweddi ar ôl dychwelyd i'r festri.

Nos Iau 23ain o Fai tro Brondeifi oedd gwahodd eglwysi'r dref i'r gwasanaeth Eciwmenaid misol. Gan fod yr wythnos flaeorol yn Wythnos Cymorth Cristnogol addas iawn oedd gwahodd cynrychiolydd o'r mudiad i'n hannerch. Roedd yn bleser gan y Parch Goronwy Evans groesawu'r Parch Wynne Vittle yn ôl i'r fro, un a fu yn gyn-ysgrifennydd o'r mudiad ac yn dal yn weithgar iawn. Cawsom anerchiad didwyll a oedd yn cynnwys ffeithiau am anhegwch a dioddefaint pobol sy'n wirioneddol yn gwybod beth yw tlodi. Roedd yn ddiffuant iawn wrth sôn am y gefnogaeth enfawr mae pobl y fro yma yn ei gyfrannu i fudiad sydd a gwir angen. Offrymwyd gweddi, darllenwyd rhannau o'r ysgrythur a chyhoeddwyd yr emynau gan aelodau o eglwysi'r dref ac offrymwyd gweddi i gloi'r gwasanaeth gan ein Gweinidog Dosbarthwyd cardiau 'Digon o Fwyd i Bawb Os Cydweithiwn' i'r gynulleidfa gan eu hannog i'w llenwi a'u danfon yn syth at Gymorth Cristnogol a fydd yn eu trosglwyddo i'r Prif Weinidog cyn iddo fynychu cynhadledd G8 yng Ngogledd Iwerddon yn mis Mehefin. Diolch i Meinir Evans am ei gwasanaeth wrth y piano ac Heini Thomas, Greenfield Terrace a fu'n brysur ar ran Delyth Jones Y Pantri yn paratoi cwpanaid o de a bisgedi gan ddiolch hefyd i bawb a gyfrannodd fisgedi.

Ar y 9fed o Fehefin eto am 10.00 cawn gyfle i groesawu Dr Carwyn Tywyn sef Ysgrifennydd yr Enwad.

## Cymdeithas Hanes

Siomedig oedd y nifer a



Criw o feicwyr Llanbedr ar ymweliad â Felodrom Cenedlaethol Cymru yng Nghasnewydd.

fynychodd y Cyfarfod Blynnyddol ar yr 21ain o fis Mai; derbyniwyd nifer o ymddiheuriadau, ond yn ffodus roedd yna ddigon yn bresennol i fedru mynd ymlaen â'r cyfarfod. Rhoddwyd adroddiad ffafriol iawn gan y Cadeirydd, Selwyn Walters, a diolchwyd i'r swyddogion ac aelodau'r pwyllgor gweithiol am eu rhan dros y tymor; yn arbennig, roedd yn rhaid enwi Penny David am drefnu rhaglen mor ddiddorol ar hyd y flwyddyn, ac ymateb yr aelodau wedi dangos hyn. Yn yr un modd, derbyniwyd adroddiad boddhaol iawn oddi wrth y Trysorydd, Phillip Lodwick.

Oherwydd pwysau gwaith arall, dymunodd Penny gael ei rhyddhau o'i swydd fel ysgrifennydd siaradwyr ddiwedd y tymor hwn. Gwirfoddolodd Gaenor Parry gymeryd y swydd - ac roedd pawb yn unfrydol dros hyn. Cynigiwyd bod y swyddogion eraill yn cadw ymlaen â'u swyddi, ynghyd ag aelodau eraill y pwyllgor gweithiol. Cytunwyd yn unfrydol.

Roedd ail rhan y noson yn ymwneud â'r prosiectau sydd ar waith ar hyn o bryd, sef:- 1. - Cyd-weithio â Phwyllgor Sioe Amaethyddol Llambled, drwy gasglu hen luniau, dogfennau ayyb fel rhan o'r dathliad ym mis Awst o gynnal Sioe rhif 125. Mae'r sioe yn mynd yn ôl tipyn ymhellach o ran blynnyddoedd, ond fu na'r un sioe yn ystod blynnyddoedd y Rhyfeloedd Byd cyntaf a'r ail, a bu'n rhaid gohirio ambell un arall oherwydd tywydd anffafriol.

2. - Casglu manylion perthnasol i ardal Llambled sy'n ymwneud â, neu'n coffau y Rhyfel Mawr 1914-18. Mae hwn yn brosiect Cenedlaethol, a bydd yn ymestyn dros 2014-18, er mwyn creu safle ar y we lle bydd pob hanesyn yn ymwneud â'r Rhyfel Mawr yn cael ei grynhoi. Bydd yn cael ei gyd-lynnu gan Mr. John Morgan Guy, a fu ar staff y Brifysgol yma yn Llambled, ac mae'n braf medru dweud y bydd yna Amgueddfa newydd yn y dre er mwyn arddangos y casgliadau lleol.

## Cap dros Gymru



Llongyfarchiadau calonnog iawn i Lili Powell, wyres fach Mair ac Eric Lewis, 10 Brynyreglwyys ar gael ei dewis i chwarae criced dros Gymru. Enillodd ei chap cyntaf llynedd i ferched dan 13 oed ac y mae wedi ei dewis eleni eto i gynrychioli ei gwlad. Mae Lili yn chwarae dros dîm merched "Cardiff and the Vale" a hi enillodd y chwaraewraig orau dros y Clwb yn ystod y tymor diwethaf. Mae eisioes wedi chwarae yn erbyn pump o siroedd Lloegr llynedd a dwywaith eleni ac wedi cael y fraint o chwarae yn Stadiwm Swalec. Canolbwyntio ar fowlio yn bennaf mae Lili ac y mae derbyn hyfforddiant arbennigol ddwywaith yr wythnos gan y Clwb. Mae Dadcu a Mamgu Llambled yn ymfalchïo yn fawr yn ei llwyddiant. Pob lwc iddi i'r dyfodol.

3. Casglu gwybodaeth ar dafarnau'r dre'. Prosiect digideiddio fydd ar waith gan y Llyfrgell Genedlaethol yw hwn, ond bod gofyn i Gymdeithasau lleol gasglu deunydd.

Braf oedd gweld fod y rhai oedd yn bresennol wedi dod ag eitemau ganddynt, ond trueni na fyddai rhagor. Er hyn 'dyw hi ddim yn rhy hwyr; - felly os ddewch o hyd i luniau, medalau, dogfennau, neu unrhyw stori ddiddorol yn ymwneud â'r hyn sydd ar waith, plis, plis cysylltwch ag un o swyddogion neu aelodau'r Gymdeithas Hanes, - mae'n rhaid eich bod yn 'nabod

# Llanbedr Pont Steffan



Tim pêl-droed Adran yr Urdd Llamed a fu'n cystadlu ar lefel Genedlaethol yn ddiweddar. Da iawn Dafydd, Dewi, Chloe, Lucy, Bryn, Guto a Rhys a diolch i Mr John am hyfforddi.

rhai ohonynt!

Bydd y daith flynyddol yn cymeryd lle Dydd Mercher (sylwch), Mehefin 19eg, ac yn ymweld â'r Ganolfan Gwrwglau yn Cenarth, ac yna ymlaen i Landudoch i'r hen Abaty. Enwau i Cecilia Barton, 40 Heol y Bont os gwelwch yn dda.

## Llywyddiant cerddorol

Llongyfarchiadau i Jessica Mc Donagh, Amakhaya, Heol Maestir am basio 'Step 1' gydag anrhydedd o dan nawdd y London College of Music yn ddiweddar. Cafodd Jessica farciau llawn yn y theori a chanmoliaeth uchel. Da iawn ti.

## Diolch

Dymuna Sally Lewis, Cartref Hafandeg, Llanbedr Pont Steffan (gynt o Siop Glandwr) ddiolch o galon am yr holl gardiau, anrhegion, ymweliadau a chyfarchion ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed. Cafodd ben-blwydd wrth ei bodd yng nghwmni ei theulu. Diolch hefyd i staff Hafandeg am eu caredigrwydd bob amser.

## Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf a'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

## Priodas Arian

Llongyfarchidau cynnes i David a Wendy Moore, 28 Penbryn ar ddathlu eu Priodas Arian ddiwedd y mis. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

## Noddfa

Llongyfarchiadau calonnog i Beryl Davies, un o aelodau Noddfa ar gael nifer o emynau o'i gwaith wedi eu cynnwys mewn cyfrol newydd yn dwyn y teitl 'Mil a mwy o Emynu'. Golygydd y gyfrol yw'r Parchedig Ddr Edwin Lewis.

Mae Beryl wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar. Dymunir gwellhad buan iddi.

## Eisteddfod Rhydychen

Atgyfodwyd traddodiad hynod Gymreig yn ddiweddar pan

gynhaliwyd Eisteddfod Fawreddog Prifysgol Rhydychen. Trefnwyd yr Eisteddfod, oedd heb ei chynnal ers 1944 gan Gymdeithas Dafydd ap Gwilym. Is Gaplan y Gymdeithas hon yw Ben Lake o Lamed a gwelwyd Aneurin Karadog yn cyfweld ag ef ynghyd â'r caplan Carwyn Groves ar y rhaglen 'Heno' ar S4C yn ystod yr Eisteddfod. Y beirniad llên oedd y Prifardd Mererid Hopwood. Roedd y Gymdeithas wedi cysylltu â'r ysgolion yn Nghymru a chafwyd ymateb da iawn. Prifardd yr Ŵyl oedd disgybl o Ysgol Plasnewydd a'r Prif Lenor o ysgol Llanfyllin. Bu'r Eisteddfod yn llwyddiant mawr a braf oedd gweld traddodiad oedd wedi hen ddiffannu yn cael ei atgyfodi.

## Elizabeth Ann Davies - Beti Bryncastell

Dymuna John a'r teulu ddiolch o galon i berthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth. Hefyd diolch i Staff Ysbyty Bronglais am eu gofal arbennig a'u caredigrwydd mawr bob amser. Derbyniwyd cyfraniadau er cof am Beti tuag at apêl Ambiwlans Awyr Cymru ac mae'r teulu am ddatgan eu gwerthfawrogiad diffuant i bawb am eu cyfraniadau hael. Mae'r cyfanswm bron yn £1,500.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Hannah James Ynysfaig, Stryd Newydd ar basio arholiad piano Gradd 5 dan nawdd Coleg Cerdd Brenhinol Llundain yn ddiweddar.

## Bedyddwyr

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Bedyddwyr cylch Caio a Llanbedr Pont Steffan ym Methel Silian ar Sul 19 Mai a'r haul yn gwenu'n braf. Pleser mawr oedd cael croesawu Mr Twynog Davies i'n harwain unwaith eto. Cymerwyd at y rhannau arweiniol yn oedfa'r prynhawn gan Aron Davies a Dewi Uridge o Fethel Silian. Mwynhawyd gwledd

ardderchog yng nghwmni'r plant gyda phob un ohonynt yn rhoi o'u gorau ac yn ymateb yn rhagorol i ofynion yr arweinydd er bod nifer ohonynt yn ifanc iawn. Bu'r plant i gyd o'r lleiaf i'r hynaf yn darllen yr emynau gan wneud hynny yn raenus a deallus.

Llywydd y prynhawn oedd Carys Thomas o Salem Caio a chyflwynodd anerchiad diddorol iawn ar gyfer y plant a bu hwythau yn ateb ei chwestiynau yn frwd ac yn hwyliog. Datganodd ei diolch i'r arweinydd am ei waith arbennig, i'r cyfeilyddion Owen Williams ac Alwena Evans a hefyd i Janet am baratoi'r plant. Traddodwyd y fendith gan y Parchedig Jill Tomos.

Tro'r oedolion oedd hi yn yr hwyr i ganu mawl i Dduw a braf oedd gweld nifer o ffrindiau wedi ymuno â'r côr yn ôl eu harfer. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Gwen Davies ac Iwan Uridge a llywyddwyd gan Huw Williams, y tri ohonynt o Fethel Silian. Llywyddodd yr arweinydd i gael ymateb brwdfrydig oddi wrth y cantorion yn ôl ei arfer ac o ganlyniad cafwyd canu gorfoleddus. Hefyd bu Lisa ac Elan yn canu dau o emynau'r plant er boddhad i bawb a chyfoethogwyd yr oedfa yn fawr gan anerchiad y Llywydd. Pleser oedd gwrando ar ddatganiadau swynol iawn yn y Gymanfa gan ddau o gantorion ifanc talentog y cylch sef Deian Thomas o Fethel Cwm Pedol a Lowri Elen o Noddfa.

Talodd y Llywydd ddiolch diffuant i Mr Twynog Davies am ei wasanaeth clodwiw yn ystod y dydd gan sicrhau Cymanfa lwyddiannus iawn, hefyd i bawb oedd wedi cymryd rhan, i organyddion y prynhawn a Delyth Morgan Phillips ac Ann Morgan organyddion yr hwyr am eu cyfraniad gwerthfawr ac i'r cantorion o'r eglwysi lleol am eu cymorth. Hefyd talodd werthfawrogiad cynnes i Mr Emlyn Davies am ei waith diflino yn arwain rihysals yr oedolion, i aelodau Bethel Silian am yr holl waith paratoi, yn enwedig y chwirydd am y te ardderchog a hefyd i Janet, yr ysgrifennydd am ei threfniadau trylwyr. Mynegodd yr arweinydd ei ddiolch yntau am y

fraint o gael arwain ac am y croeso a thalodd deyrnged uchel i'r plant a'r oedolion am eu canu bendigedig. Cyhoeddwyd y fendith gan y Parchedig Athro Densil Morgan. Tystiau pawb mai da oedd cael cyfle i ddod ynghyd i glodfodi Duw ac roedd y tywydd braf yn goron ar Gymanfa odidog.

## Brysiwch Wella

Estynnir dymuniadau gorau am wellhad buan i John Morgan, Maesyfelin sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Tywysog Phillip, Llanelli yn ddiweddar.

## Cinio'r Trydydd Byd

Ar Fehefin y 7fed cynhelir Cinio'r Trydydd Byd Neuadd yr Eglwys Llanbed 12.00 - 2.00y.p. o dan nawdd Cymorth Cristnogol. Dewch i gefnogi'r anghenus yn y Trydydd Byd.

## Cyfansoddwraig

Lowri Elen, aelod o Aelwyd Llamed, enillodd y drydedd wobwr yn nghystadlaeth cyfansoddi cerddoriaeth lleisiol bl.10 a dan 19 oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Benfro eleni. Llongyfarchiadau.

# Gorsgoch

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â Ronald Jones, Meinigwynion Mawr ar farwolaeth ei briod sef Sue a fu farw ganol y mis.

## Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Mrs Jean Evans, Llwyn-y-gôg sydd wedi treulio peth amser yn ysbyty Glangwili yn ddiweddar yn dilyn llawdriniaeth.

## Prawf Gyrru

Llongyfarchiadau i Lauren a Sophie Jones, Awel-y-Gors ar basio eu profion gyrru yn ystod y mis. Da iawn chi a chymerwch ofal.

Gwersi Gitar: Theatr Felinfach  
Stafell Gynadledda  
Nos Fercher 16.30-21.00

Tiwtor: Gerald Morgan, Tregaron  
geraldmorganguitar@hotmail.co.uk  
www.geraldmorganguitar.co.uk



YOUTUBE  
Gwersi Gitar Cymraeg  
Caneuon Rygbi  
Gitar i'r Cristion

01974 299367

## T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174

### Gadewch i'r bobl ifanc

Dim ond un peth sy'n well na gweld eich geiriau yn dod yn fyw a rhywun arall yn eu defnyddio nhw. A'r un peth sy'n well ydi gweld plant yn dod â'r geiriau'n fyw. Mae eu brwdfrydedd nhw'n gallu rhoi rhyw ddimensiwn ychwanegol i'r holl beth.

Y mis diwetha', mi ddaeth Ysgol Cwrtnewydd o fewn dim i gyflawni'r dwbl ac ennill am yr ail dro'n olynol ar y Gân Actol yn Eisteddfod yr Urdd. Ond, pa wahaniaeth, mae cael cynta' ac ail mewn dwy flynedd yn anferth o gamp i ysgol mor fach.

Roedd ysgolion neu adrannau tair gwaith maint Ysgol Cwrt yn cael cystadlu ac, o ganlyniad, roedd mwyafrif y plant yn cymryd rhan, bron at y plant ieuenga'. Roedd meddwl am rai ohonyn nhw ar lwyfan anferth Boncath yn dod â chrygni i'r gwddw.

Camp y criw sy'n eu dysgu oedd cael pob un i roi popeth; roedd y penderfyniad yn eu hwynebau nhw'n werth ei weld, heb sôn am yr ynni wrth ddawnsio a chanu a symud. A llawer iawn yn blant o aelwydydd di-Gymraeg.

Yn yr oed yna, does yna ddim petruso tros iaith arall; tydi syniadau o be sy'n cwl – ac yn bwysicach beth sydd heb fod yn cwl – ddim wedi eu meddiannu. Os ydyn nhw'n mwynhau, mi wnaiff y plant ymroi heb boeni beth ydi'r iaith.

Ryden ni wedi gweld yr un peth efo cylchgrawn Wew a'i Ffrindiau a hwnnw, ym mis Mai, yn dathlu ei 200fed rhifyn. Yn nes ymlaen eleni, mi fydd Golwg ei hun yn dathlu chwarter canrif ond, yn ei ffordd, mae penblwydd Wew yr un mor bwysig.

Does dim ond rhaid edrych ar enwau'r plant sy'n anfon lluniau i'r cylchgrawn i weld eu bod nhw'n dod o bob ardal a phob cefndir. Yn y Cymoedd, Caerdydd neu gefn gwlad, mae'r enwau'n arwydd o'r newid ym mhoblogaeth Cymru.

Y cwestiwn mawr ydi faint o'r plant yna fydd yn dal i ddefnyddio'r Gymraeg yn hapus pan fyddan nhw'n 18 ac 20 oed. Neu faint ohonyn nhw fydd wedi troi cefn ar y Gymraeg gan feddwl nad ydi hi'n cwl.

### Be sy'n digwydd?

Nid cwestiwn i blant o ddysgwyr yn unig ydi hwnna chwaith. Mi fydd rhai plant o aelwydydd Cymraeg hyd yn oed – yn sicr mewn rhai rhannau o Gymru – yn troi at y Saesneg erbyn iddyn nhw fynd i'w harddegau.

Mae brwdfrydedd cân actol neu lwyddiant Wew'n dangos nad oes yna broblem sylfaenol – yn yr oed cynradd, mae plant yn fodlon cofleidio'r Gymraeg. Tydyn nhw ddim yn gofyn cwestiynau ac mae Sali Mali'n gymaint o arwres ag ydi Nodi o arwr.

Mae'r Prif Weinidog, Carwyn Jones, wedi galw Cynhadledd Fawr ym mis Gorffennaf i drafod yr iaith a'i dyfodol. Un mesur o lwyddiant fyddai dod o hyd i'r allwedd i gynnal brwdfrydedd y plant a'i droi'n barodrydd ymhlith pobol ifanc i'w defnyddio hi hefyd.

Un elfen goll, o bosib, ydi'r rhieni. A yden ni'n llwyddo i wneud digon i'w cael nhw i ddsygu'r iaith ochr yn ochr a'u plant a'u cael nhw i ddod at yr iaith efo'r un agwedd agored?

Ryden ni'n clywed yn aml nad oes yna ddigon i bobol ifanc ei wneud yng nghefn gwlad (yr CFFI ydi'r eithriad). Petai gweithgareddau Cymraeg yn llenwi'r bwlch yna, mi allai wneud byd o wahaniaeth.

Nid sôn am bethau diwylliannol yr ydw i ... ond petai pob math o weithgareddau ar gael trwy'r Gymraeg, mi allai wneud llawer i newid agweddau. Ac mae yna hen ddigon o siaradwyr Cymraeg yn mynd trwy gyrsiau perfformio i gael eu hyfforddi i ddefnyddio'r sgiliau hynny i ddatblygu gweithgareddau cymdeithasol Cymraeg.

Mae'r her yn amlwg; yn y cyfamser, dim ond gobeithio y bydd y profiad o fod mewn cân actol neu ddarllen cylchgrawn difyr yn creu atgofion melys o'r iaith – rhai y bydd modd galw arnyh nhw pan ddaw'r cyfle.



### Gwledd o'r gegin ym mis Mehefin.

Dyma gasgliad o rysetiau fydd rwy'n siwr, yn ddefnyddiol dros dymor yr Haf. Parti yn yr ardd, picnic, neu i'w greu ar eich gwyliau. Maent yn gwneud y defnydd gorau o gynnyrch tymhorol ac yn hawdd ac hamddenol i'w paratoi. Gobeithio y cawn Haf braf i fwynhau ein hunain ac i fwyta'n iachus.

Mwynhewch mis Mehefin,

*Gareth.*

### Tartennau Mefus.

#### Cynhwysion

350gm o does brau (shortcrust)

150ml o hufen dwbwl

2 llond llwy fwrdd o geuled lemon (Lemon curd)

½ llond punnet o fefus wedi'u sleiso

2 lond llwy fwrdd o jam mefus.

#### Dull

1. Rholiwch y toes a thorrwch 4 cylch o amgylch soser. Gosodwch yn y tuniau pobi.
2. Gosodwch ddarn o bapur gwrthsaim ymhob un a llenwch â reis sych. Rhowch mewn ffwrn 180°C, Fan 160°C am 25 munud. Gadewch i oeri.
3. Curwch yr hufen a phlygwch y geuled lemon iddo. Llenwch y tartenni toes. Gosodwch y mefus fel addurn drostynt.
4. Cymysgwch y jam gyda llond llwy fwrdd o ddŵr poeth a brwsiwch yn sglein dros y bedair tarten.

### Salad Llysiau'r Haf.

#### Cynhwysion.

Halen a phupur

4 ŵy

2 gorbwmpen (Courgette).

2 letysen (Little Gem)

250gm o radish wedi'u sleiso

150gm o domatos bach wedi'u hanneri

150gm o rawnwin du

4 llond llwy fwrdd o olew'r olewydd

Sudd un lemon



#### Dull

1. Berwch yr wyau am 10 munud ac oerwch dan ddŵr oer, pliciwch a chwarterwch.
  2. Sleisiwch y gorbwmpen yn rubanau a chymysgwch mewn powlen gyda'r letys, radish a'r tomatos. Gosodwch ar blat gyda'r wyau ar y top.
  3. Curwch y sudd lemon yr olew, y pupur a'r halen. Sgeintiwch dros y salad.
- Tip - Dewch â'r wyau i dymeredd yr ystafell cyn eu berwi i osgoi i'r wyau'i gracio.

### Parseli Pysgod a Berwdwr.

#### Cynhwysion.

Un pecyn o ferwdwr 85gm

50gm o fenyn

Halen a phupur

500gm o puff pastry

4 filed o eog heb groen

1 ŵy wedi'i guro



#### Dull

1. Trowch y ffwrn i 190°C. Leinwch dun pobi â phapur gwrthsaim. Gosodwch y berwdwr a'r menynd mewn prosesydd bwyd a gwnewch yn bast.
2. Rholiwch y toes a thorrwch yn bedwar darn. Gosodwch ddarn o eog ar bob darn. Gwasgarwch y menynd a'r berwdwr drostynt.
3. Brwsiwch ychydig o'r ŵy o amgylch yr ochrau a seliwch y parseli. Sgleinwch â gweddill yr ŵy. Torrwch dyllau yn y parseli i ollwng y stem allan.
4. Pobwch am tua 20 i 25 munud. Gweinwch gyda salad a thato newydd.



Cegin Gareth

Goedwig

Llanbedr P.S.

SA48 7JP

01570 422 313

Blodau

Cacennau

Dathliadau

Partion

Rhifyn mis Gorffennaf

Yn y Siopau

4ydd Gorffennaf

Erthyglau, Newyddion

a Lluniau i law erbyn

24ain Mehefin

## Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETHTIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHOU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â ni.

# ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS  
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambed  
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



## Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:  
Carpedi a Feinyll, Lloriau Diogel,  
Cladinau Wal,  
yn ogystal â Gwelyau,  
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont  
LLANBEDR PONT STEFFAN  
Ffôn a Ffacs: 01570 423984  
Adref: 01570 423349

## Cegin Coedlannau

'Bwyd cartref ar gyfer  
pob achlysur'

\* Cacenau pen-blwydd gyda llun  
(ffotograff)

\* Bwffe mawr neu fach

\* Dantethion i de

\* Pwdinau

\* Arlwy ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,  
01570 434 243  
07815 962 045



Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:

- \* Blinder / diffyg egni
- \* Meigrin
- \* Sciatica
- \* Irritable Bowel Syndrome
- \* Menstrual problems
- \* a mwy

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â Carol Rees

01545 590164  
07929 559561

## Tim Jones



### Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebyg  
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

# Llanybydder

## Pen-blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau i Ann, Gwarduar sydd yn dathlu pen-blwydd arbennig ar y 24ain o Fehefin.

## Priodas Aur

Llongyfarchiadau mawr i Mam a Dad sef Hugh ac Olga, Coedparc ar eu Priodas Aur ar y 29ain o Fehefin. Dymuniadau gorau oddi wrth Mona, Mike a Daniel.

## Diolch

Dymuna Alun, Emlyn, Anne, John, Richard a Rhian ddiolch o galon am bob cymorth, caredigrwydd a chydymdeimlad a ddangoswyd iddynt ar farwolaeth Mair Evans, Dolydd, Llanybydder.

Gwraig, mam, mam-yn-g-nghyfraith a mamgu annwyl iawn. Diolch hefyd am bob cyfraniad ariannol a dderbynwyd tuag at Apêl Diabetes Cymru trwy law Gwilym C. Price a'i Fab a'i Ferched Llambed.

## Noson Goffi

Cynhaliwyd Noson Goffi lwyddiannus yn Ffestri Capel Aberduar nos Wener, Mai 17eg dan nawdd Pwyllgor Buddiannau'r henoed. Agorwyd y noson gan ein llywydd Y Parch Suzy Bale. Rhoddodd araith bwrpasol iawn a chyfrannodd yn hael at y coffrau. I ddiddanu'r gynulleidfa oedd Côr Lleisiau'r Werin a chafwyd mwynhad mawr wrth wrando ar y côr ac hefyd wrth i ni wrando ar y Parch Suzy Bale yn chwarae'r Delyn. Mawr yw gwerthfawrogiad y pwyllgor i chwi gyd.

Gwerthwyd y nwyddau o'r stondinau yn gyflym. Roedd pawb wedi bod yn hael iawn wrth gyfrannu a phrynu. Enillwyr y raffl oedd: 1. Alun James, Telynfaf. 2. 480505. 3. Elain Williams, Heol-y-Gaer. 4. Owen Pantfyd. 5. Jac 480598. 6. G. Watkins, Heol-y-Gaer. 7. Eirlys Thomas, Awelfa. 8. Morgans, Rhyd-y-felin. 9. E. Dyer. 10. Davies, Brynteg. Raffl y Llestri - Gwladys Evans.

Dymuniad y pwyllgor yw diolch i bawb am bob cyfraniad ac i bawb a fu'n gweithio mewn amryw ffordd i sicrhau llwyddiant y noson. Hefyd i bawb am eu presenoldeb. Pwyllgor nesaf ar Hydref 1af am 7.00y.h. yn yr ysgol. Croeso i aelodau newydd i ymuno â ni.

## Pwyllgor Apêl

Mae Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn dod i Sir Gaerfyrddin yn 2014. Mae holl bentrefi y sir yn brysur yn cynnal pwyllgorau apêl, er mwyn codi arian tuag at yr Ŵyl. Bydd angen i blwyf Llanybydder a Chwmann gasglu £4,000. Mae pwyllgor Apêl wedi ei sefydlu ac erfyniwn am eich cefnogaeth a'ch cyfraniadau i'n helpu i gyrraedd y



Y Parch Suzy Bale a wnaeth agor y noson goffi flynyddol gyda aelodau o Bwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder.

nôd. Os ydych yn dymuno cyfrannu anfonwch eich rhodd at Mrs Jean Davies 11, Heol y Gâr, Llanybydder. Byddwn yn ddiolchgar am unrhyw gyfraniad. Nodir y bydd rhoddion dros £40-00 yn cael eu cydnabod yn rhaglen yr Eisteddfod.

## Eglwys Sant Pedr, Llanybydder

Ar Ddydd Sul, 12fed Mai, roedd gwasanaeth y Gair yng nghofal Diana Harper.

Dyma wasanaeth arbennig ofnadwy a oedd yn edrych ar bwysigrwydd gweddïo, a sut mae pawb yn gweddïo mewn gwahanol ffyrdd.

Diddorol oedd clywed hanes Diana fel plentyn yn Llundain, a'r ffordd roedd gweddïo wedi chwarae rhan bwysig yn ei phlentyndod hi, e.e. pan roedd hi'n gweddïo am anrheg arbennig adeg Nadolig.

Mae Diana yn fenyw ddiddorol ofnadwy, sydd â ffordd unigryw iawn o adrodd hanes, felly roedd pawb wedi mwynhau y gwasanaeth yma yn ofnadwy, ac edrychwn ymlaen i wasanaeth nesaf Diana.

Diolch i chi Diana am eich gwaith caled.

Nos Fawrth, 21ain Mai, cynhaliodd yr Eglwys noson Bingo yng nghlwb Rygbi Llanybydder, i godi arian tuag at waith cynnal a chadw'r Eglwys.

Rhoddwyd y gwobrau ariannol gan fusnesau lleol, a dymunwn ddiolch i bob un ohonynt am ein cefnogi.

Hyfryd oedd gweld y Clwb yn llawn, gyda bobl sydd yn dilyn y nosweithiau Bingo, aelodau a ffrindiau'r Eglwys, a merched yr ysgol Sul.

Eurwyn oedd yn galw'r rhifau, ac roedd Carol, Eirian a Bethan wrth y drws yn gwerthu raffl a llyfrau Bingo. Diolch iddynt am eu gwaith.

Diolch arbennig i Susan am drefnu'r noson, i bawb a ddaeth a gwobrau raffl, i bawb a ddaeth i gefnogi'r noson ac i John a Wes am eu croeso.

Ar ôl noson hwyliog iawn, gwnaethom godi dros £550!

Mae merched yr Ysgol Sul yn brysur ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer y Gŵyl Gorawl, a gynhelir eleni yn Eglwys Tregaron ar y 9fed o Fehefin.

Mae'r ymarferion yn cynnwys dawnsio, canu, bwyta brechdan jam a phaentio lluniau!!

Cewch eglurhad i hyn ar ôl y Gymanfa!

Os ydych chi'n gwybod am unrhyw blant a fyddai'n mwynhau ymuno gyda ni unwaith y mis ar gyfer yr ysgol sul, cysylltwch gyda Kay am fwy o wybodaeth ar 07866985550 neu kaydavies241@btinternet.com.

Cofiw'n bawb sydd yn anhwylyd adref neu yn yr ysbyty, rydych i gyd yn ein gweddïau.

## Côr Lleisiau'r werin

Nos Wener, 17eg Mai, roedd y côr yn diddanu'r gynulleidfa yn Noson goffi Pwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder. Derbyniodd y côr lythyr gan Beti Jones, ysgrifennyddes Pwyllgor Buddiannau henoed Llanybydder, yn diolch iddynat am yr adloniant yn ystod y noson hon.

Canodd y côr amrywiaeth o ganeuon yn cynnwys Cwm Alltcafau ar Entertainer.

Hyfryd roedd cael Ficer Suzy yn canu tair cân ar y Delyn.

Diolch i Edith am gyflwyno'r Côr yn lle Kay, a oedd yn sâl. Diolch i Elonwy a Margaret am eu gwaith arbennig fel arfer, ac i aelodau'r côr am ganu mor arbennig.

Penblwydd hapus iawn i Bet a ddathlodd benblwydd arbennig iawn wythnos diwethaf.

Mae'r côr yn cael nos Iau hoe yn ystod wythnos hanner tymor, ond byddwn yn ail-ddechrau ymarferion y nos Iau ganlynol.

Os ydych chi'n joio canu ac yn joio cal sbort, dewch i ymuno â Chôr Lleisiau'r werin! Croeso cynnes i aelodau newydd unrhyw bryd!

Os am ragor o fanylion cysylltwch â Kay ar 07866985550 neu kaydavies241@btinternet.com

# Llangybi a Betws

## Hamdden

Croesawodd y llywydd Janet Farrow bawb yn gynnes iawn i gyfarfod mis Mai gan ddymuno adferiad buan i'r rhai oedd yn sâl.

Y gwŷr gwadd oedd y Bon. Daniel Boyle o Silian a bu ef yn arddangos ei grochenwaith lliwgar gan roddi eglurhad ar y gwahanol dechnoleg sydd ynghlwm a'r grefft yma. Mae'n teithio yn helaeth ym Mhrydain ac ar y cyfandir i fynychu Ffeiriau sydd yn arbenigo mewn gwerthu ac arddangos crochenwaith.

Diolchwyd iddo yn gynnes iawn am arddangos ei waith gan Janet Farrow. Enillwyd y raffl gan Joyce Harris, Alunda Jones, Dilys Godfrey, Maisie Morgan, Morina Davies, Mair Spate a Barry Williams. I ddiweddu y cyfarfod cafwyd te a bisgedi wedi eu rhoddi gan Alunda Jones a Rita Jones. Y trip blynyddol fydd y cyfarfod nesaf i Ardal Abertawe ar Fehefin 7fed. Enwau ar frys i'r trysorydd.

## Merched y Wawr Y Dderi

Gwraig wadd mis Mai oedd Mrs Ann Thorne ac fe'i chroesawyd hi a phawb arall yn gynnes iawn gan y Llywydd - Gwyneth Jones. Cawsom ganddi hanes gwraig unigryw a chysylltiadau agos â Chwm Nedd sef Winifred Coombes Pennant. Un o foneddigesau cefnog yr ardal na wyddai neb fawr amdani hyd yn ddiweddar pan gyhoeddwyd ei dyddiaduron. Roedd yn gefnogol iawn i grefftwy, yn aelod o'r Orsedd - Mam o'r Nedd, yn cynfasio dros y Blaid Rhyddfrydol ac fe fu yn annerch cynulleidfao dros 400 yn Llambled ar ddechrau y ganrif diwethaf. Bu yn flaenllaw iawn yn y mudiad i wragedd gael y bleidlais. Roedd yn ymwelydd cyson â charchar Abertawe ac yn gynrychiolydd i Gynghair y Cenedloedd yn Ewrop ac yn genedlaethwraig. Fe fu yn sefyll mewn etholiad yn Lloegr ond ni fu yn llwyddiannus. Bu yn ymwelydd cyson â Llanfair gan brynu sawl carthen a phethau gwlanog eraill o ffatri lleol. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch am noson mor ddiddorol yn cynnwys cymaint o hanes lleol ac am berson mor weithgar mewn llawer i gylch gan Deborah Jones. Rhoddwyd y Raffl gan Mair Spate ac fe'i henillwyd gan Gwyneth Evans ac Eleanor Evans.

I ddiweddu y cyfarfod cawsom baned o de a bisgedi wedi eu rhoddi gan Gwyneth Evans ac Irene Lewis.

I'r cyfarfod nesaf ar Fehefin 19eg rydym yn disgwyl Marged Phillips i'n hannerch.

## Ysgol Y Dderi


Hoffwn ddiolch yn fawr i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol i ddechrau am brynu goliau pêl droed a hoci newydd i ni ar ôl codi arian yn ddiweddar. Mae'r plant wrth eu bodd gyda'r rhodd ac mae sawl gôl wych wedi ei sgorio'n barod!



mor bell yn y gystadleuaeth. Cawsom gyfle hefyd i flasau'r pryd Morocaid arbennig yn yr ysgol, a gwahoddwyd aelodau'r Llywodraethwyr a'r gymuned i fwynhau talentau Susan gyda ni.

Mae hi wedi bod yn gyfnod prysur eto yn ddiweddar gyda nifer o dripiâu addysgol ac allgyrsiol: aeth plant y Cyfnod Sylfaen i fwynhau gwledd o ganu a dawnio yn sioe "Gwobr y Gwenwyn Gweithgar" gan Theatr Na Nog yn Felinfach, aeth Blwyddyn 3 a 4 i ymweld â Mwyngloddiâu Aur Dolaucothi ac yna treuliodd rhai ohonynt ddwy noson yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog. I Barc y Scarlets aeth plant Blwyddyn 5 a 6 i wylieo gêm y Scarlets yn erbyn Treviso, ac fe aeth grŵp o Flwyddyn 6 i Groeg gyda rhai o'r staff yn ystod mis Mai fel rhan o'r prosiect Comenius. Yn ogystal, fe fu plant ac athrawon o'r Eidal a Norwy yn ymweld â ni yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Yn olaf, dymunwn ymddeoliad hapus i'n hathrawes fro, Mrs Anwylyd Evans, a diolch yn fawr iddi am ei gwasanaeth ar hyd y blynyddoedd.



Daeth llwyddiant i dair chwaer o Langybi yn ddiweddar. Ffion Betts Jones (chwith yn y llun) yn drydydd am waith serameg/crochenwaith Bl. 5 a 6 yn Eisteddfod yr Urdd Sir Benfro 2013; Cerys Angharad Betts Jones (canol) yn ail yn Llefaru dan 6 oed yn Eisteddfod Dihewyd; a Chloe Betts Jones (dde yn y llun) yn ail am waith serameg/crochenwaith Bl. 3 a 4 yn Eisteddfod yr Urdd Sir Benfro 2013. Llongyfarchiadau mawr iddynt!

am berson mor weithgar mewn llawer i gylch gan Deborah Jones. Rhoddwyd y Raffl gan Mair Spate ac fe'i henillwyd gan Gwyneth Evans ac Eleanor Evans.

Cefn Hafo d  
Gorsgoch



01570 434238

Cyri bob nos Wener  
£6 y pen  
Cwis - nos Iau cyntaf bob mis  
[bwyd yn rhan o'r noson]  
Croeso cynnes i bawb!

W.D.  
Lewis  
a'l Fab

Mae'n achlysuwr / Amgwyddol /  
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill  
Llanbedr Pont Steffan  
Ceredigion SA48 7AG  
Tel: 01570 422540  
Fax: 01570 423644  
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn  
Broneb Stores  
Pumsaint, Llanwrda  
Tel: 01558 650215



## CEGIN GWENOG

Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyo cyflawn ar  
gyfer pob achlysur

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes



Bwydleni unigol i ateb eich gofynion  
chi - boed yn fawr neu'n fach

Mair Hatcher  
01570 481230 / 07967 559683

## Alec Page Gof



Gwaith metal o safon  
i'r tŷ a'r ardd.

Dewch i drafod eich syniadau.

Yr Efail, Barley Mow,  
Llambled.

01570 423955

www.alecpageblacksmith.co.uk

## WILLIAMS & BOURNE

CYFREITHWYR,  
COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob  
gwasanaeth cyfreithiol.  
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

1 Sgwâr Harford,  
Llambled

01570 422206 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregeron, Llanbydder,  
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

## Ysgol Llanllwni

Yn ein sesiynau Urdd rydyn wedi bod yn mwynhau dawnsio gwerin, bingo a gemau parasiwt. Buom ar ein trip i Gei Newydd i weld y bad achub. Roedd yn rhaid cael swper cyn dychwelyd adref.

Bu Ceris, Rowen, Gwion a Hanna yn rhedeg yng nghystadleuaeth trawsgwlad yr Urdd, rhanbarth Ceredigion yn Aberaeron. Da iawn chi blant.

Cawsom ddiwrnod diddorol iawn pan ddaeth yr awdures Angharad Tomos i'r ysgol. Buodd yn sôn fel yr aeth ati i greu ac ysgrifennu'r llyfrau Rala Rwdins. Roedd yn braf gweld nifer o'r plant wedi gwisgo fel cymeriadau o'r storïau. Roedd plant yr Adran Iau wedi paratoi sioe bypedau i blant y Cyfnod Sylfaen. Yna yn y prynhawn cawsom barti i ddathlu mai 30 mlynedd yn ôl y cyhoeddodd y llyfr cyntaf o gyfres Rala Rwdins. Diolch yn fawr i Mrs Benson, ein myfyrwraig, am drefnu'r cyfan ac i bawb a gyfrannodd tuag at y parti.

Llongyfarchiadau i Carys Evans, blwyddyn 6, am ennill gwobr mewn cystadleuaeth lliwio a drefnwyd gan Uned Diogelwch Y Ffyrdd, Sir Gaerfyrddin er mwyn dathlu 60 mlynedd o fodolaeth hebrongwyr ysgol. Daeth Mr Rhys John o'r Uned Diogelwch Y Ffyrdd i'r ysgol i gyflwyno'r wobr i Carys ac i gyflwyno'r llun buddugol mewn ffrâm, i Mrs Moira Jones ein hebrongwraig.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol am fis Mai: 1af – Mandy Van Ryswyk, Gilwen; 2ail – Kevin Jones, Trysor; 3ydd – Melfyn Evans, Glas Y Dorlan.

## Eglwys Sant Luc

Dathlwyd pen-blwydd cangen Undeb y Mamau yn 60 oed ym mis Ebrill gyda chinio yn y Talardd Llanllwni. Yn anffodus roedd rhai aelodau yn methu bod yno oherwydd salwch, ond cafwyd prynhawn pleserus iawn.

Ym mis Mai aethon ar ein taith flynyddol - i'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Cawsom ein tywys o gwmpas yn gampus iawn, ac roedd pawb yn rhyfeddu at yr adeilad hardd, a'r trysorau sy ynddo.

Cafwyd gwasanaeth bendithiol iawn yn yr Eglwys fore'r Groglith eleni eto dan arweiniad y Parch Suzy Bale. Fe'n harweiniodd tuag at fannau gwahanol o fewn yr Eglwys i greu oriau olaf yr Iesu cyn iddo gael ei groeshoelio. Gwasanaeth i'r teulu oedd hwn, a braf oedd cael y rhieni a'r plant yn cymryd rhannau arweiniol.

Mae rhai o'r aelodau wedi bod yn mynychu'r ymarferion gogyfer a'r gymanfa yn Nhregaron ddechrau mis Mehefin. Peth braf yw cael cyfle i

gyd-ganu gyda phobl o blwyfi eraill yn ein deoniaeth.

## CFfi Llanllwni

Anodd credu bod mis arall wedi mynd heibio ac yn sicr i chi mae wedi bod yn un prysur iawn i aelodau'r clwb. Cynhaliwyd rali blynyddol y Sir ar ddydd Sadwrn 4ydd o Fai lle bu pawb yn brysur yn cystadlu trwy gydol y dydd ar Faes Sioe Caerfyrddin. Cafwyd diwrnod llwyddiannus efo Llanllwni yn cipio 5 cwpan ac un tarian ar ddiwedd y cystadlu. Cipiodd Anwen Jones ac Ifor Jones gyntaf yn barnu Cobiau Cymreig, Betsan Jones a Mared Phillips oedd ennillwyr y gystadleuaeth coginio sef creu pryd o fwyd i ddau dan £5, yn sicr cogyddion y dyfodol. Yn y gystadleuaeth newid olwyn car i ferched Ffion Rees ddaeth i'r brig, da iawn ti. Rhian Davies oedd yr unigolyn uchaf yn y gystadleuaeth "pot luck" a'r dasg dan sylw oedd clymu selsig. Tynnu 12 llun dan themau gwahanol er mwyn creu calendr oedd y dasg yn y gystadleuaeth lluniau eleni a da iawn i Sara am gipio y garden goch a mynd ymlaen i gynrychiolu'r sir yn y Sioe Wanwyn yn Llanellwedd, yn amlwg bod lluniau Llanllwni yn sefyll allan yno hefyd wrth i ddau allan o'r deuddeg llun ddod i'r brig. Llongyfarchiadau mawr i ti.

Yn bendant roedd yr holl hyfforddi ac ymarfer wedi talu ffordd i fechgyn tîm tynnu'r gelyn y clwb gan iddynt drechu dau glwb arall. Llongyfarchiadau i Siôn Evans, Ben Dufty, Arwel Jones, Aled Jones, Hefin Jones, Gari Davies, Dan Joynson a Sam Joynson a pob lwb yn y Sioe Frenhinol ym mis Gorffennaf. Aled Jones ac Ifor Jones ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth "Scavenger Hunt", hefyd fe ddaeth Meryl Davies, Rhian Davies a Sioned Howells yn ail yn y "Celtic Landmark". Gwneud "Chariot" oedd sialens arddangosfa'r prif gylch eleni a llongyfarchiadau i Betsan Jones, Sara Jones, Ben Dufty, Siôn Evans, Ifor Jones, Jac Jones, Aled Jones, Hefin Jones a Ceirios Lewis am ddod yn ail yn y gystadleuaeth. Creu eitem allan o balet oedd y gwaith coed iau a da iawn i Dan a Josh Joynson am ddod yn drydydd wrth greu cadair. Carwyn Lewis a Sam Joynson oedd yn cystadlu yn y gystadleuaeth gwaith coed hyn a'r dasg oedd gwneud eitem i blant i chwarae arno lle ddaethant yn drydydd.

Braf oedd gweld Ifor Jones ar y llwyfan yn ystod y seremoni fel aelod iau y sir am y flwyddyn i ddod, pob hwy i ti yn dy swydd.

Llongyfarchiadau i holl aelodau'r clwb am gystadlu ac am eu llwyddiant yn y rali lle sicrhawyd bod C.Ff.I Llanllwni yn cipio y



Rhys John o uned diogelwch ffyrdd Sir Gaerfyrddin yn cyflwyno rhodd i Carys Evans a Moira Jones Ysgol Llanllwni.



Plant Ysgol Llanllwni yn mwynhau cwmni Angharad Tomos.



Yn dilyn adroddiad Beti Wyn yn rhifyn diwethaf Clonc, ar ail agor Capel Nonni ym Mehefin 1963, dyma lun arall o aelodau iau y capel a dynnwyd gyda'r Parchedig Owen Williams ar y diwrnod hwnnw. Mae pedwar o'r pump yn dal i fyw o fewn y filltir sgwâr a'r pumed â chysylltiadau agos â'r ardal o hyd. Tybed a ydych yn adnabod y wynebau siriol yma?

darian enfawr am y safle cyntaf yn adran iau ar ddiwedd y dydd, efo'r adran hyn yn eistedd yn y seithfed safle.

Hoffwn ddiolch i bawb a wnaeth ddysgu'r aelodau a helpu allan mewn unrhyw fodd i sicrhau y llwyddiant yma – Diolch!

Ar 11eg o Fai cynhaliwyd y trydydd digwyddiad i ddathlu 70 mlwydd oed y clwb lle gynhaliwyd "It's a Knockout" a Rhostio Mochyn ar gaeau Abercwm. Mr Tom Bowen, Pwllglas oedd llywydd y noson a diolch iddo am ei gefnogaeth. Cafwyd 7 tîm yn cystadlu yn y sialens "It's a Knockout" ac ar ôl mynd dros sawl big bale a mynd mewn i'r pwll dŵr llongyfarchiadau

i glwb San Ishmaels am gipio'r wobr gyntaf ac i dîm bechgyn y clwb am ddod yn ail. I gofio am y dathliadau pen-blwydd, rydym yn gwerthu mygiau cofaol sydd ar werth gan yr aelodau.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Eiddwen a Geraint, Maes-y-Celyn yn ei phroffedigaeth o golli ei thad y'n ddiweddar. Cydymdeimlir â'r holl deulu.

## 21 oed

Pen-blwydd hapus i Siân, Clyniâr sy'n dathlu ei phen-blwydd yn 21 oed ar Fehefin 8fed. Pob dymuniad da i ti i'r dyfodol.



Tyngrug-Ganol,  
Cwmsychpant,  
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Helo blant, sut ydych chi? Wel wrth i mi ysgrifennu'r llythyr yma atoch mae'r haul yn gwenu'n braf arnaf er nad yw wedi bod allan llawer yn ystod y mis diwethaf. Pan fydd yr haul yn gwenu rwyf wrth fy modd yn bola heulo yn yr ardd. Digon o hufen iâ a sudd afal oer – wwww lyfli! Wrth i mi orwedd yn yr haul heddiw rwy'n gweld bod y blodau'n dechrau tyfu yn fy mhotiau hardd. Blodau o bob lliw a llun. Oes blodau yn tyfu yn eich gardd chi?

Wel mi wnaeth nifer ohonoch chi blant fynd ati i liwio llun y bocs teganau. Da iawn chi gyd. Roeddwn yn hoff iawn o luniau Gwenllian Llwyd o Gwmann, Ellie Lona Gorman o Benparcau a Holly Davies o Abertawe. Ond llun mwyaf lliwgar y mis yma yw un Alwena Mair Owen, Cwmderi, Llanllwni. Llongyfarchiadau mawr i ti Alwena!


Ewch ati mis yma i liwio fy mhot blodau yn lliwgar a beth am i chi dynnu llun o'r blodau sydd yn eich potiau blodau chi adref? Cofiwch ddychwelyd y llun i mi cyn diwedd y mis.

Ta ta tan toc.



Enillydd  
y mis!

Alwena  
Mair Owen




Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

## Enwau Lleoedd Lleol

gan David Thorne



### Pigyn Pigws Tŷ pica

Ffurf fachigol ar 'pig' yw 'pigyn' ac mae'n fenthycair o'r Saesneg Canol pik(e) sef 'blaen, pwynt'. Mae'r elfen honno'n digwydd mewn enwau lleoedd yn Lloegr megis Picket Post sef 'y post pigfain', yn Hampshire a Pickwell sef, 'nant ger y bryn pigfain' yn Swydd Gaerlŷr. Ym mhentref Pickwell mae'r bryn pigfain yn nodwedd dirweddol hollol amlwg gerllaw'r pentref. Digwydd Picket Piece yn enw cyffredin ar ddarn o dir ar ffurf 'pig' yn Lloegr.

Mae 'pigyn' yn elfen sy'n digwydd yn aml mewn enwau lleoedd yng Nghymru yn ogystal ac yn dynodi blaen main craig neu fryn neu gae. Ceir Pigyn yng Nghaeo; mae Pigyn-Isaf a Pigyn-Uchaf ger Rhydrosers yng Ngheredigion; mae Cae pigyn (1843) yn Llanwenog.

Cyfeiria'r enw Pigyn Siôn Niclas ar Fynydd Llansadwrn at adeilad ar ffurf tŵr pigfain a godwyd gan Syr Nicholas Williams (1681-1745), Plas Rhydodyn. Yn ôl traddodiad dinistriwyd yr adeilad gan fellt a'r enw yw'r unig gof amdano bellach.

Yn Sir Fôn ceir Pigyn Siw, bryncyn ger eglwys Cerrigceinwen. Mae'n ymddangos y gallai'r ail elfen gynrychioli'r ansoddair 'syw' sy'n golygu 'teg, hardd'. Dyna'r elfen a geir, yn ogystal, yn Blaen-syw (1713), Clun-syw (1713), Maen-syw (1713) yn Llan-llwch, Sir Gaerfyrddin.

Yn Llyfr Degwm Plwyf Llanllwni ceir Cae pig fain yn Llety'r Dwrgi, Waun-fawr, Waunceiliogau a Ffynhonnau.

Yr un tarddiad a geir i Pigws, Bigws; dilynir yr elfen 'pig' gan y terfyniad bachigol

'-ws' yn yr achos hwn. Ceir Cae pigws yn Llanwnen (1844) ac yn Llanwenog (1843), Ceredigion; yn Nhreamlod, Sir Benfro, roedd bwthyn o'r enw Bigws (1842); nodir Bigws yn enw ar gae ar fferm Penybanc ym mhlwyf Pencarreg yn Sir Gaerfyrddin ac mae Tomos Ifan y Bigws yn

gymeriad yn stori fer D J Williams, Pwll yr Onnen. Mae Twyn Bigws yng Nglyncorrwg, Sir Forgannwg.

Yr un ystyr a'r un tarddiad a geir i 'pica' sydd hefyd digwydd yn elfen mewn enwau lleoedd. Yn Sir Gaerfyrddin ceir Tŷ pica yn Llanddarog, yn Llanegwad ac yn Llanpumsaint. Yn Llanllwni ceir Cae tŷ pica a Cae tŷ pica bach ar hen stad Perthyberllan. Yng nghofnodion Ffestri Llanllwni cofnodir yn 1825 i John Tŷ pica dderbyn 20 swllt gan y plwyf i gynnal ei wraig a'i blant ar lan y môr. Yn 1828 wedyn derbyniodd John Rees Tŷ pica, het a phâr o esgidiau er mwyn i'w ferch, Mary, fynd i wasanaethu.

Ceir Bryn Pica ger Aberdâr, Bryniau Pica ger Ystrad-fflur, Banc Pica yn Gwnws, Carn Pica ger Llanddeusant (Sir Gaerfyrddin), Pica-bach ger Tregaron.

Mae'r nodiadau misol hyn ar enwau lleoedd yn cael eu paratoi dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. [www.cymdeithasenuwau lleoedd cymru.org](http://www.cymdeithasenuwau lleoedd cymru.org)

### A wyddoch chi...am Enwau Lleoedd Cymru?

Dyma chwip o lyfr a fydd at ddant llawer o ddarlennwyr CLONC. Catrin Stevens yw'r awdur a'r llyfr hwn yw cymwynas ddiweddaraf Cartrin i astudio hanes a diwylliant Cymru.

Mae yma 18 Adran sy'n cwmpasu pob agwedd ar astudio enwau lleoedd. Mae'r awdur yn holi cwestiynau perthnasol ac yn rhoi atebion cryno. Mae'r dull holi ac ateb yn gweithio'n dda drwodd. Bryd arall rhoir ffaith a phwt o hanes diddorol i'w ategu. Ac mae'r cyfan mewn lliw. Gresyn na fyddai modd paratoi cyfrol o'r un ansawdd ar gyfer bob un o siroedd Cymru.

Gomer yw'r cyhoeddwr a phrynais i fy nghopi i yn Siop y Smotyn Du.



# Erwydro'r cymunedau



Cynllun Cyfeirio Ymarfer Cenedlaethol a Chynllun Adsefydlu Cardiaidd Ceredigion yn gwneud eu taith gerdded nodedig yn Llambled ar gyfer codi arian i'r Gynhadledd Genedlaethol ym mis Hydref. Cerddasant o'r Ganolfan Hamdden i Westy'r Glynhegog a nôl. Yn y llun mae Paul Jones, Cydlynnydd Atgyfeirio Ymarfer Corff, Carys Llewelyn, Hyfforddwr Atgyfeirio Ymarfer Corff, Denise Lewis, Cydlynnydd Adferiad Cardiaidd a Lois Mantell ac Alex Buchi, Nyrsys arbenigol y Galon, a phawb arall fu'n cymryd rhan ar y daith gerdded.



Tîm rygbi dan bymtheg Llambled yn ennill cystadleuaeth Plât Sir Gaerfyrddin am yr ail dro yn olynol. Yn y llun gwelir yr hyfforddwyr Emyr, Geraint a Gary a'r chwaraewyr yn eu gwisg newydd – y siorts wedi ei noddi gan gwmni Dunbia ac wedi eu cyflwyno gan Paul Edwards a'r crysau gan Ffrindiau a Chefnogwyr. Nid yw'r tîm wedi cael eu trechi drwy'r tymor – tipyn o gamp. Da iawn bois!



Aelodau Capel ac Ysgol Sul Brondeifi ar daith nodedig i'r coleg ar y 19eg Mai i godi arian tuag at Apêl Elain.

Gorsaf  
Brawf  
MOT

## GAREJ BRONDEIFI

Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

- \* Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- \* Teiars am brisiau cystadleuol
- \* Ceir newydd ac ail law ar werth
- \* Batris \* Breccs \* Egsost
- \* Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

## CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL  
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:  
**Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.**

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynnyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn ailfeddiannu am eich cartref.

# CFfl Llanllwni a Chwmann yn Rali Sir Gaerfyrddin

